

ECO'r Wyddfa

f Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 472 Nadolig 2018 Ionawr 2019

Pris: 70c



Taro'r Miliwn a thorri record

Llongyfarchiadau mawr i Alffa, sef Dion Jones, Llanrug a Sion Land, Ceunant ar gyrraedd dros filiwn o ffrydiau ar Spotify gyda'r gân 'Gwenwyn'. Dyma'r gân Gymraeg ei hiaith sydd wedi ei ffrydio fwyaf erioed, ac nid yng Nghymru yn unig. Mae'r gân wedi profi llwyddiant rhyfeddol mewn gwledydd mor wahanol a Brasil a Gwlad Pwyl. Yn rhifyn Rhagfyr o'r "Eco" roedd Dion yn dweud ei bod yn amser cyffrous iawn i'r band, yn enwedig o sylweddoli fod y niferoedd oedd yn eu dilyn yn cynyddu'n gyflym. Bryd hynny, roedd wedi ei ffrydio

700,000 o weithiau. Gwta dair wythnos yn ddiweddarach ac y mae wedi taro'r miliwn – a throsodd.

Gyda diolch i'r artist Casey Raymond am gael defnyddio'r cartŵn, sydd wedi ei greu i ddathlu Dydd Miwsig Cymru a gynhelir ar Chwefror 8fed 2019. Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad hwnnw ewch i @DyddMiwsigCymru ar Twitter.

Tybed beth fydd nifer y ffrydiau erbyn y dyddiad hwnnw?

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr
a chefnogwyr yr "Eco".*

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

RHIF 472
Nadolig 2018/Ionawr 2019
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn	Copi i law	Bwn delu	Ble
Chwefror	Sul 20 Ionawr	Gwener 1 Chwefror	Llanrug
Mawrth	Sul 17 Chwefror	Gwener 1 Mawrth	Llanrug
Ebrill	Sul 17 Mawrth	Gwener 29 Mawrth	Llanrug

LLYTHYRAU

Annwyl Syr/Madam

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddianus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD. maes.meini@btinternet.com Y dyddiad cau fydd 14 Chwefror, 2019.

Gyda diolch,
Yn gywir, Medwen Charles

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Daeth tymoryr Hydref o'r Cylch i ben wrth i ni groesawu y Dr Bleddyn Owen Huws atom. Croesawyd Bleddyn, sy'n Uwch ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, gan ein Is-gadeirydd, Mary Roberts. Mae llyfr diweddaraf Bleddyn ar T.H. Parry-Williams newydd gael ei gyhoeddi a ni gafodd y fraint o wrando ar ddarlith tu hwnt o ddifyr yn sôn am gyfnod T.H. yn Aberystwyth yn ystod ac ar ôl y Rhyfel Mawr. Roedd y darlithydd ieuanc yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod y rhyfel a bu cryn erledigaeth arno, a gwrthwynebiad i'w benodiad i Adran y Gymraeg yn y Coleg. Yn yr un cyfnod roedd wedi ennill Ysgoloriaeth i astudio Meddygaeth yn Llundain. Parhaodd ei ddiddordeb yn y byd meddygol weddill ei oes, ac mae ei Ysgrif ar ar-syllu ar driniaeth pendics yn tu hwnt o fanwl a llenyddol ar yr un pryd. Cawsom hefyd gip-olwg ar ei garwriaeth â'r Dr Gwenn Williams, (Dr Gwenni) o Drawsffynydd, meddyg ardal tu hwnt o boblogaidd a blaen-llaw.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Bleddyn ar y diwedd, ac mae'n amlwg fod pawb wedi mwynhau. Ewch allan i brynu'r llyfr hynod yma a chael gwybod mwy am y Bardd o Rhyd-ddu.

Beth am ddod atom yn y flwyddyn newydd i wrando ar Jerry Hunter yn sôn am Llenyddiaeth Gymraeg a Rhyfel Cartref America, gan grybwyll caethwasanaeth, ar Ionawr 15fed yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 yr hwyr.

Cadeirydd newydd i'r "Eco"

Yn dilyn yr adroddiad yn y rhifyn diwethaf fod angen Cadeirydd ar Bwyllgor Rheoli yr "Eco", daeth newyddion da cyn y Nadolig. Mae gennym Gadeirydd newydd, a diolch i Tony Elliott am wirfoddoli i lenwi'r swydd. Bu Tony yn rhan o'r Tim Golygyddol ym mlynedd oedd cynnar y papur, a braf cael ei groesawu'n ôl. Diolch Tony.



Cyrraedd y deng mil

Yn ystod y diwrnod agored yn Ysgol Cwm y Glo ddechrau'r mis, cyrraeddodd Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen garreg filltir go arbennig. Gwyddai Gareth Roberts ei fod yn agosau at gyrraedd y deng milfed person i fynychu ei deithiau cerdded a'i 'ddigwyddiadau' ers cychwyn y cynllun bum mlynedd yn ôl yn 2013. A phan ddaeth dros hanner cant

o bobl i'r ysgol yn ystod sesiwn y prynhawn, cyrraeddwyd y ffigwr rhyfeddol hwnnw. Ac Enid Williams o Lanrug oedd y deng milfed person, a hi a gafodd ei chyflwyno â rhodd gan Gareth i ddathlu'r garreg filltir hanesyddol. Ers 2013 mae Gareth wedi cynnal 250 o deithiau cerdded, a dim ond dwy yn unig y bu'n rhaid eu gohirio. Ymlaen rwan am y deng mil nesaf!

Parhad LLYTHYRAU

Annwyl Gyfeillion,
Gweler isod llythyr Cylch yr Iaith at Bennaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd yn nodi ein dadl dros beidio ag ail-strwythuro Canolfannau Iaith y sir.
Byddem yn falch iawn pe baech yn ystyried anfon at Gareth Jackson, Pennaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd, (garemjackson@gwynedd.llyw.cymru) yn galw arno i roi heibio'r bwriad, efo copiau er gwybodaeth at:
Y Cyng. Gareth Thomas, Deilydd Portffolio Addysg (cynghorydd.gareththomas@gwynedd.llyw.cymru);
a'r Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor (cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru).

Yn gywir,
Ieuan Wyn

Ysgrifennydd, Cylch yr Iaith
o.n. Os dymunwch, gallech ddefnyddio'r llythyr parod canlynol:

Annwyl Gareth Jackson,
Dymunaf fynegi yn y modd cryfaf posib' fy ngwrthwynebiad i fwriad Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd ail-strwythuro Canolfannau Iaith y sir. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif leihau eu gallu i gyflawni'r gwaith cwbl allweddol y maent yn ei gyflawni i warchod addysg Gymraeg, ynghyd â'r Gymraeg yn y gymuned, yng Ngwynedd.
Yn gywir,

Cylch yr Iaith, Talgarreg, Ffordd Carneddi
Bethesda, Gwynedd. LL57 3SG
01248 600297 | ieuanwyn01@gmail.com
Gareth Jackson
Pennaeth
Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd
5 Rhagfyr, 2018

Annwyl Gareth Jackson,
Parthed: Canolfannau Iaith – Grant Gwella Addysg
Dymunwn ymateb i benderfyniad Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd i wneud newidiadau staffio yng Nghanolfannau Iaith y sir.
Ar ôl darllen eich llythyr ac ymatebion y Canolfannau Iaith eu hunain i'r bwriad i ail-strwythuro'r drefn staffio, rydym yn sylwi nad ydych yn eich dogfen ymgynghori wedi cynnwys maen prawf hanfodol i osod y dewisiadau yn ei erbyn.

Ar hyn o bryd, y meini prawf yw fel a ganlyn:
1. Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddfyodiaid (h.y. bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth.
2. Isafswm lefel staffio o 2 FTE ymhob Canolfan Iaith
Yr hyn sy'n amlwg yw absenoldeb maen prawf cwbl allweddol a hanfodol, sef 'Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth, hynny yw effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Canolfannau Iaith o ran eu gallu i gyflawni eu diben yn llwyddiannus.'
Tystiolaeth uniongyrchol staff presennol y Canolfannau Iaith yw na all cymorthyddion gyflawni gorchwylion athrawon yn llawn ac yn ddigonol i sicrhau effeithlonrwydd gweithrediad y canolfannau ym mhob agwedd ac effeithiolrwydd hanfodol yr addysgu a'r dysgu. Mae profiad y staff yn dangos bod llwyddiant eu cynllun gwaith yn dibynnu ar arbenigeddau athrawon cymwys. Gyda phob dyledus barch i gymorthyddion a'u cyfraniad neilltuoel, y farn gwbl glir yw na fyddai gan y Canolfannau Iaith y

gallu i gyflawni eu gwaith yn effeithlon ac effeithiol pe bai cymorthyddion yn cymryd le athrawon. Mae'r cwrs iaith a ddefnyddir wedi ei lunio'n bwrpasol er mwyn cyflawni'r gwaith o gyflwyno'r Gymraeg i grwpiau sy'n cynnwys nifer benodol o blant mewn un tymor, ac mae effeithiolrwydd y cwrs yn dibynnu ar arbenigedd athrawon cymwys. Cwrs iaith dwys ydyw – cwrs trochi sy'n gofyn dealltwriaeth o brosesau caffael iaith, agweddau ar seicoleg addysg yn ogystal ag egni meddyliol a chorfforol. Mae gofyn cyflwyno hefyd holl ystod y pynciau ysgol i'r dysgwyr trwy'r Gymraeg. Mae'n gwbl amlwg fod rhaid wrth athrawon cymwys i gyflawni'r gofynion hyn yn llwyddiannus.

Gwyddom oll beth fyddai'r goblygiadau i'n hysgolion a'n cymunedau. O fethu â sicrhau bod gafael ddigonol ar y Gymraeg gan y plant, byddent yn methu integreiddio i'r drefn Gymraeg ar ôl dychwelyd i'w hysgolion, o ran eu gallu i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith yn ddirwystr ac o ran eu gallu i ymdoddi i fywyd ysgol, gan gynnwys cymdeithasu gyda chyd-ddisgyblion, trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai methiant y Canolfannau Iaith i gynnal y lefel bresennol o gyrhaeddiad yn arwain at leihau effeithiolrwydd Siarter y Gymraeg a'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Pe baech chi wedi cynnwys y maen prawf a nodwyd gennym uchod, sef 'Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth, hynny yw effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Canolfannau Iaith o ran eu gallu i gyflawni eu diben yn llwyddiannus' yn erbyn yr opsiynau, byddech wedi sylweddoli'n syth na allai cymorthyddion gymryd lle athrawon. Ni ddylid mynd ymlaen gyda'r ail-strwythuro. Byddai'n benderfyniad annheilwng a gwarthus ar ran Cyngor Gwynedd yn enw trigolion y sir. Mae parhad ein cenedl yn dibynnu ar barhad ein hiaith, ac ni ddylem ar unrhyw gyfrif ei thanseilio mewn unrhyw fodd. Yn wir, ei hatgyfnerthu ddylem. Ni allwn ddychmygu unrhyw genedl yn ystyried bygwth ei gwahanrwydd ei hun a pheryglu ei bodolaeth trwy wneud penderfyniadau a fyddai'n arwain at wanychu ei hiaith a'i diwylliant. Pwyswn yn daer anoch i chi ailystyried y mater, a pheidio â mynd ymlaen gyda'ch bwriad.
Byddem yn falch iawn pe baech chi a'r Cyng. Gareth Thomas yn derbyn dirprwyaeth o'n mudiad i drafod y mater.
Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,
Ieuan Wyn
Ysgrifennydd
Y Cyng. Gareth Thomas, Deilydd Portffolio Addysg; Debbie Anne Williams Jones, Swyddog Addysg; Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor; Y Cyng. Nia Jeffreys, Deilydd Portffolio'r Gymraeg; Gwenllian Mair Williams, Rheolwr, Gwasanaethau Cymraeg; Siôn Elwyn Hughes, Swyddog Iaith; Y Cyng. Alwyn Gruffydd, Cadeirydd, Pwyllgor Iaith; Y Cyng. Simon Glyn, Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Cymunedau; Carys Lake, Canolfan Iaith Uwchradd/Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd; Cari Haf Lewis, Canolfan Iaith Uwchradd; Eifiona Ryder, Canolfan Iaith Cefn Coch, Penrhyndeudraeth; Sara Wyn Jones, Canolfan Iaith Cefn Coch, Penrhyndeudraeth; Delyth Annwen Jones, Canolfan Iaith Dolgellau; Enid Parry, Canolfan Iaith Llanyby; Sioned Parry Jones, Canolfan Iaith Llanyby; Gwenan Ellis Jones, Canolfan Iaith Maesincla, Caernarfon/Cydlynnydd Siarter y Gymraeg; Lowri Elen Rhys, Canolfan Iaith Maesincla, Caernarfon; Sioned Llwyd Williams, Canolfan Iaith Maesincla, Caernarfon; Ioan Rhys Jones, UCAC; Keith Parry, NEU; Mathew Cooling, UNSAIN; Siân Gwenllian AC; Llyr Huws Gruffydd AC; Hywel Williams AS; Liz Saville Roberts AS; Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd £800,000 yn cael ei wario ar bedair canolfan gofal dementia o fewn y sir, a hynny oherwydd i ddau gartref preswyl preifat gau'n ddisymwth yn ystod y flwyddyn: Penisa'rwaun yn un ohonynt. Mae'r arian i'w wario ar gartrefi yn Nefyn, Tywyn, Bangor a Llan Ffestiniog.
- Storm Diana ddiwedd Tachwedd yn creu difrod. Ffordd Caeathro i Gaernarfon yn cael ei chau am gyfnod oherwydd i goeden ddisgyn ar ei thraws, a nifer o gartrefi'r fro yn colli cyflenwad trydan.
- Yn Katowice, Gwlad Pwyl, Syr David Attenborough yn cyflwyno neges ar ran pobl y byd i gynhadledd a thrafodaethau gan y Cenhedloedd Unedig ar newidiadau i'r hinsawdd. Galw ar arweinyddwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gymryd cyfrifoldeb dros ostwng y nwyon tŷ gwyr. Ei rybudd yn datgan mai hwn "yw'r bygythiad mwyaf i'r byd mewn mil o flynyddoedd" – a bod y byd presennol "yn wynebu chwalfa gwareiddiad a difodiant llawer o'r byd naturiol." Oes angen dweud mwy?
- Wythnos na welwyd ei thebyg yn hanes gwleidyddiaeth ers degawdau, gan gychwyn gyda'r Llywodraeth yn colli tair pleidlais yn olynol a'u cyhuddo o gelu'r gwir ynglŷn ac oblygiadau cyfreithiol Brexit. Pob math o ensyniadau gwahanol yn dilyn am weddill yr wythnos: chwe mis o anrhefn yn wynebu

- porthladdoedd; prinder meddyginiaethau angenrheidiol; prisiau bywd yn codi £10 yr wythnos ar gyfartaledd; ac ymlaen ac ymlaen. Yn ystod yr un wythnos Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnig Plaid Cymru yn galw am 'Bleidlais y Bobl'. Cyngor Gwynedd hefyd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i alw am y fath bleidlais, yn dilyn cynghorau megis Lerpwl yn Lloegr ac Aberdeen yn yr Alban.....
-ac yna'r Prif Weinidog yn gohirio'r bleidlais ar dderbyn neu wrthod y cytundeb ysgariad. Ac o fewn ychydig ddyddiau yn gwrthsefyll cais gan ei haelodau Toriaidd ei hun i gael gwared arni fel arweinydd. Mwy o gythrwfwl! A bu'n rhaid anfon yr "Eco" i'r wasg cyn parhau efo'r saga ryfeddol hon.
 - Mark Drakeford yn cael ei ethol yn arweinydd newydd y Blaid Lafur yng Nghymru, ac yn addo arwain Cymru i fod "yn llusern o obaith mewn byd sy'n tywyllu." Cael ei gadarnhau'n Brif Weinidog yn ddiweddarach yn yr wythnos ac yn penodi cabinet newydd.
 - Cyngor Gwynedd yn cysidro cwtogi'r arian sy'n cynnal canolfannau dysgu Gymraeg.
 - a pharatoadau a dathliadau'r Nadolig yn mynd ymlaen yng nghapel, eglwysi, ysgolion a chymdeithasau'r fro fel arfer.

Ysgol Gwaun Gynfi



Coedwig Treborth

Wel am fis prysur a llawn hwyl yn Ysgol Gwaun Gynfi! Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen ymweld â Choedwig Treborth i dreulio diwrnod gydag Elfennau Gwylt fel diweddsglo i'w thema. Cawsant gyfle i greu cadair i babi arth, creu anifail allan o glai, brigau a dail a mynd ar helfa Hydref.



Plant Mewn Angen

Roedd Aled Hughes yn darlledu'n fyw o'r ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Cyfrannodd y plant trwy wneud y Pawen Lawen. Llwyddodd yr ysgol i godi £145 trwy wisgo pjs a chreu pawen o geiniogau ar y buarth.



Diwrnod Dysgwyr

Ar gyfer Diwrnod Dysgwyr Disglair Ein Dyfodol daeth y disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo gwisg eu swydd ddelfrydol yn y dyfodol. Gwahoddwyd rhieni a busnesau lleol i drafod swyddi a bu'r athrawon yn cynnal gweithdai megis cymorth cyntaf, codio ac origami i ddysgu sgiliau gwahanol i'r disgyblion.



Priodasau

Hefyd cafwyd dwy briodas yn yr ysgol yn ddiweddar fel rhan o'r Dysgwyr Disglair. Yn y Cyfnod Sylfaen gwelwyd priodas Gristnogol, yng Nghyfnod Allweddol 2 priodas Hindwaidd a gafwyd. Ymunodd y Parchedig Marcus Robinson gyda ni ar gyfer y briodas Gristnogol.



Coginio

Ac er mwyn cael cacen gwerth chweil i'r "top table" cafwyd cystadleuaeth "bake off" gyda Margaret Roberts fel y beirniad. Ffion Haywood ddaeth yn gyntaf, Nia yn ail a Zara a Summer yn drydydd. Llongyfarchiadau iddynt!



Hanes y Pentref

Daeth Mr Gareth Roberts i'r ysgol i drafod hanes y pentref. Eglurodd mai ond coedwig oedd yma yn Neiniolen flynyddoedd maith yn ôl a sut mae'r pentref wedi datblygu dros y canrifoedd.



Gymnasteg

Aeth tîm o blant CA2 i gystadlu yng nghystadleuaeth gymnasteg Eryri yng Nghaernarfon.

COFIO AM BET

Ar brynhawn hynod stormus o wynt a glaw daeth tyrfa deilwng i Eglwys Crist Llandinorwig ar y 27ain o Dachwedd i angladd Lizzie Catherine Roberts, 25 Rhydfadog (neu Bet fel yr adwaenid hi yn annwyl gan bawb). Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar ôl salwch byr, roedd yn 84 mlwydd oed. Roedd yn ferch annwyl i'r diweddar Robin a Jinnie, cymar y diweddar Robin, yn gyfnither hoff i Megan, Hefin, Lena, Ann, Nancy, Elsie a Mair, yn ffrind pennaf i Buddug a Rhianwen ac yn fodryb hoff. Treuliodd Bet ei blynyddoedd cynnar yn Neiniolen a'r Fachwen, bu'n gweini ar aelwydydd a bu'n gweithio yn y golchdy ym Mangor. Symudodd i Buxton i fyw cyn dychwelyd i aelwyd ei rhieni yn rhif Saith, Maes Eilian, yn Ninorwig lle bu'n gofalu'n arbennig am eu rhieni. Bymtheng mlynedd i Awst eleni daeth Bet i fyw i Rydfadog gan setlo yn dda yma a mwynhau y cyfnod yn fawr. Perthynai i Bet rinweddau arbennig iawn, ac yn eu mysg ei charedigrwydd mawr, roedd tu hwnt o ffeind a rhoddai yn hael bob amser yn enwedig i blant. Tawel a chymwynasgar ydoedd, byth yn cwyno, roedd yn fodlon ei byd a byddai bob tro yn gofyn am eraill er nad oedd hi'n aml ddim yn teimlo'n dda ei hun. Roedd ganddi gof da. Ni chollai Bet wasanaeth yn Eglwys Llandinorwig, rhoddai yn hael i gronfa'r addoldy ac i unrhyw weithgaredd er budd yr Achos. Bu'r diweddar Robin Evans yn gymar arbennig iddi am bum mlynedd ar hugain a themlodd ei golli yn fawr pan fu farw dair mlynedd ar ddeg yn ôl. Diolchir i Rhianwen, Glyn a Buddug am fod yn gymorth arbennig i Bet gan fynd â hi i bobman, a phawb arall yn deulu, cymdogion a ffrindiau yr un modd am bob cysylltiad. Bydd chwith mawr ar ei hôl. Yn gwasanaethu yn ei hangladd yn yr Eglwys ac wedyn yn yr Amlosgfa roedd y Canon Idris Thomas, Glanrafon, a diolchir iddo am ei deyrnged personol iddi. Yr organyddes oedd Annette Bryn Parri a derbyniwyd rhoddion er cof am Bet tuag at elusennau lleol. Y Cyfarwyddwyr Angladdau oedd Meinir o Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaen.

Nadolig yn Eglwys Crist

Ar Noswyl y Nadolig (nos Lun, 24ain Rhagfyr) am 6p.m. ceir Cymun Cymraeg yr Wyl. Croeso i bawb o'r plwyf a'r Dyffryn ac o bob enwad i'r gwasanaethau hyn yn ôl yr arfer. Yn gwasanaethu bydd y Canon Idris Thomas. Dewch i awyrgylch hyfryd Eglwys Llandinorwig y Dolig hwn i fwynhau'r wledd.

Diolch Dymuna Iona, Ken, Barry, Tracey a theulu y ddiweddar Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain, hen Nain, chwaer, modryb a chyfnither. Gwir ddiolch am y rhoddion hael sydd yn mynd tuag at gynnal fynwent Eglwys Crist, Llandinorwig, Deiniolen. Ein diolch hefyd i ffrindiau a chymdogion Elizabeth yn Rhydfadog am bob help a gafodd dros y blynyddoedd.

Diolch Dymuna Nancy Williams, 10 Rhes Marian, ddiolch am bob ymweliad, galwad ffôn a chardiau a dderbyniodd ar ôl colli ei chwaer Elizabeth, a dymuna Nadolig Llawn a Blwyddyn

Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion caredig, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Dymuniadau'r Nadolig

Gan nad ydym yn anfon cardiau Nadolig eleni carem ddymuno "Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda" i'n teulu, ffrindiau a'n cymdogion. Oddi wrth Alun a Lona, Rhydfadog.


Dymuna'r Cynghorydd Elfed Williams, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal, a diolch am yr holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Gŵyl Deiniolen a'r cylch

Cafwyd noson lwyddiannus eto eleni pan roddwyd golau Nadolig y pentref ymlaen gan y Frenhines Erin Wyn. Cafwyd adloniant gwych gan fand Deiniolen a lluniaeth wedi ei baratoi gan y Wellington. Mae'r goleuadau yn edrych yn hyfryd ar hyd y stryd fawr. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi y noson.

Gair gan y Golygydd: Gyda newyddion Deiniolen y mis hwn daeth eitem yn beirniadu sylwadau gohebydd o bentref arall yn y fro. Os yw'r awdur yn fodlon anfon ei enw/henw, byddwn yn cysidro eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

DeiNIolen, Ddoe, Heddiw ac Yfory



Dyma adroddiad gan Adrian Roberts, Cydlynudd Lle, Asiantaeth Ynni ‘Severn Wye’ ar ddau ddiwrnod o weithgaredd a thrafod yn Neiniolen. Dros benwythnos y 24ain a 25ain o Dachwedd, cynhaliwyd ddigwyddiad “DeiNIolen- ddoe, heddiw ac yfory” yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Trefnwyd y digwyddiad gan Asiantaeth Ynni a Partneriaeth Bro, fel rhan o brosiect Dyfodol Gwledig, sy’n cael ei ariannu drwy Gronfa’r Loteri Fawr. Mawr yw eu diolch hefyd i nifer o wirfoddolwyr lleol sy’n eistedd ar Grwp Llywio y prosiect hwn, gan eu bod wedi gweithio’n galed i sicrhau bod y digwyddiad yn un diddorol a llwyddiannus. Roedd canmoliaeth mawr gan y rhan fwyaf o’r bobl fynychodd. Daeth bron i 200 o bobl drwy’r drysau, a chymryd rhan mewn digwyddiad oedd yn eu tywys ar daith o’r gorffennol i’r presennol, a’u hannog wedyn i edrych tua’r dyfodol, a cheisio dyfalu sut le yr hoffent i Ddeiniolen a’r cylch fod ymhen rhyw ddeng mlynedd. Ar gychwyn y daith, roedd cyfle iddynt weld hen luniau a ffilmiau o’r ardal, a gweld sut mae’r pentref wedi newid dros y

blynyddoedd. Roedd hon yn stondin boblogaidd iawn, ac mae angen diolch yn fawr i Gareth Roberts o Menter Fachwen am yr arddangosfa roddodd at ei gilydd. Drwy weddill y daith, roedd amryw o gyfleoedd i bobl leisio eu barn ar sut le ydyw i fyw ynddo y dyddiau hyn, yn ogystal a chynnig syniadau ar sut y gellir gwella pethau tua’r dyfodol.

Roedd hefyd ambell i stondin oedd yn cael eu rhedeg gan bartneriaid, gan gynnwys Uned Cais Safle Treftadaeth Y Byd o Gyngor Gwynedd, Yr Amgueddfa Lechi, Sefydliad “Mens Sheds” a’r Gymdeithas Cludiant Cymunedol. Rhedwyd cystadlaethau ar gyfer disgyblion yr Ysgol Gynradd, tra bod ambell ddisgybl o Ysgol Brynrefail wedi helpu yn y digwyddiad fel rhan o’u gwaith Bagloriaeth Cymru.

Cafwyd mewnbnw gwych gan y gymuned dros y ddau ddiwrnod, a’r cam nesaf fydd i’r Grwp Llywio geisio adnabod cyfleoedd i ddatblygu prosiectau yn seiliedig ar y wybodaeth. Gwylwch allan am gyfleoedd i gymryd rhan yn y dyfodol.

Pont Huws Drygist



Diddorol oedd gweld llun Dylan Cadwaladr Parry o fwa gwreiddiol Pont Huws Drygist yn rhifyn Hydref o'r Eco. Tybed faint sy'n sylweddoli fod y bwa cerrig yna o fewn tua 12 mlynedd o fod yn 200 oed? A pwy oedd yr Huws Drygist y mae cenedlaethau o bobol Llanberis wedi cadw ei enw ar gof a chadw? Wel, dyma drio ateb y cwestiwn hwnnw.

Yn ystod wythnos olaf Hydref 1877 cafwyd "storm o law Digyffelyb" yn ardal Llanberis. Roedd hen bobl yr ardal yn gytûn nad oedd tywydd tebyg wedi ei weld ers cyn dechrau'r ganrif. Roedd wedi bwrw'n ddi-baid drwy gydol y dydd Sadwrn, a pharhau dros nos, ond tua hanner awr wedi chwech ar y bore Sul fe drodd yn "gurlaw" rhyfeddol. Mae'r adroddiadau yn y papurau newydd yn cyfeirio at y ffyrdd lleol yn afonydd. Roeddynt dros lathen o ddyfnder mewn rhai llefydd yn ardal Nant Peris, a chaeau ar bob tir gwastad yn llynnoedd mawr. Yn sgil tirlithriad ym Mwlch Llanberis roedd "miloedd" o dunelli o bridd a cherrig wedi cau'r ffordd ac uwchben y pentref fe chwalwyd pont ar yr Afon Goch gan nerth y dŵr. Serch y pethau hynny i gyd, mae'r adroddiadau'n cytuno mai ym mhentref Llanberis, ac yn enwedig o gwmpas Dolperis a gwesty'r Castle y bu'r problemau mwyaf. Dyna ble roedd yr Afon Goch wedi gorlifo'i galannau gan nad oedd y bont oedd yn cario'r Stryd Fawr drosti yn gallu dygymod â llif y dŵr. I wneud pethau'n waeth, roedd sefyllfa debyg wedi digwydd rhai misoedd yn gynt. Bryd hynny roedd y dŵr wedi chwalu waliau hyd ochr yr afon wrth ymyl Dolperis ac roedd y papurau newydd yn beirniadu "yr Awdurdodau" am beidio â'u trwsio, gan honni fod hyn wedi gwaethygu'r sefyllfa.

Mae'r adroddiadau yn enwi'r un a ddioddefodd fwyaf fel "Mr R Hughes, druggist, Dolperis". Cafodd seleri'r adeilad eu llenwi a dŵr, cafodd carpedi gwerthfawr eu difrodi ac fe ddifethwyd llawer o'r nwyddau yn ei siop. Hwn, mae'n eithaf amlwg, yw'r Huws Drygist a gysylltwyd â'r bont. Fel Pont Afon Goch y cyfeirir ati yn yr adroddiadau o'r cyfnod a Pont y Ddôl yw ei henw ar bob map yr "Ordnance Survey" a welais i. Oes rhywun yn defnyddio'r enwau yma heddiw? Pont Huws Drygist ydi hi i bobol Llanberis hyd y gwelaf i. Onid ydi hi yn amser newid ei henw yn swyddogol?

Ond pwy oedd Huws Drygist? Pan ddigwyddodd y llifogydd doedd o heb fod yn Llanberis yn hir. Richard Hughes oedd ei enw llawn. Mae cyfeiriad ato ryw ddwy flynedd ynghynt yn ei ddisgrifio fel "cynt o Fangor" ac mae sawl cyfeiriad at Mr Hughes, Druggist ym Mangor cyn hynny. Mae'n ymddangos iddo setlo'n sydyn yn Llanberis gan gyfrannu i fywyd cymdeithasol y pentref. Mae cyfeiriad diddorol, rhyw bythefnos cyn y storm, at gyngerdd yn Llanberis "o dan lywyddiaeth y diddanus Mr Hughes, fferyllydd, o Dolperis". Cyngerdd oedd hwn i godi arian i bentrefwr arall oedd mewn trafferthion ariannol yn dilyn salwch. Roedd Richard Hughes hefyd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr ond nid oedd wedi ei sefydlu'n weinidog yn Llanberis.

Mae'n debyg mae rhan o Ddolperis yn unig oedd yn gartref a siop i Huws Drygist. Mae un papur newydd yn cyfeirio at Y Parch W.J. Henry, rheithor y plwyf hefyd yn dioddef colledion yn llifogydd 1877. Mae cyfrifiad 1881 yn dangos William Edwards, olynydd W J Henry mae'n debyg, rheithor Llanberis ynghyd â'i wraig a dwy forwyn yn rhannu Dolperis efo Richard Hughes a'i deulu. A fu rhan o Ddolperis yn gwasanaethu fel rheithordy am gyfnod? Mae cyfrifiadau gweddill y ganrif yn cadarnhau bod Richard Hughes a'i deulu wedi byw yn Dolperis hyd nes iddo ymddeol rhywbryd ar ôl 1901.

Mae'n amlwg i'r drafodaeth ynglŷn â'r llifogydd, a sut i osgoi problem debyg yn y dyfodol, barhau am amser. Yn Ionawr 1878 cyflwynodd John Thomas, Syrffewr y Sir, adroddiad i'r Llys Chwarter ar y llifogydd yn Llanberis. Roedd y muriau hyd ochrau Afon Goch wedi eu trwsio erbyn hynny. Fodd bynnag, gwraidd y broblem yn ôl y syrffewr oedd bod cryfder

llif yr afon ar ôl glaw trwm yn cario cerrig a graean i lawr i gyffiniau'r bont. Roedd hyn yn codi gwely'r afon o fewn modfeddi i frig y bwa cerrig ac yn rhwystro'r dŵr rhag llifo oddi tano. Ofnai y byddai'r ffordd a'r tai cyfagos yn cael eu difrodi eto. Yr unig ateb yn ôl y syrffewr oedd adeiladu pont ar drawstiau haearn yn lle'r bwa cerrig oedd yno, gan godi wyneb y ffordd rhyw 12 modfedd yn uwch a gadael mwy o le i'r dŵr lifo.

Cyn diwedd Mawrth 1878 cynhaliwyd cyfarfod o festri plwyf Llanberis yn y Club Room ble cytunwyd ar ddeiseb i'w hanfon i'r Llys Chwarter yn mynnu datrysiaid i broblem y bont. Roedd barn y syrffewr yn gyhoeddus erbyn hynny ac roedd y ddeiseb yn gofyn i'r Llys weithredu ar ei argymhellion. Yng nghyfarfod nesaf y Llys Chwarter ym mis Ebrill cyfeiriodd y syrffewr at y ddeiseb gan roi crynodeb o'i chynnwys. Bu trafodaeth hir ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am y bont. Mae'n amlwg fod y Llys Chwarter yn gyndyn i dderbyn unrhyw gyfrifoldeb. Nodwyd fod y bont erbyn hynny oddeutu 50 oed, ac felly yn dyddio'n ôl i tua 1830 sef cyfnod adeiladu'r ffordd dyrpeg wreiddiol o Gaernarfon drwy Ddyffryn Peris. Ond roedd yr Ymddiriedolaeth Dyrpeg yn dirwyn at ddiwedd ei hoes ac nid oedd Cynghorau Sir wedi eu sefydlu. Neb yn barod i dderbyn cyfrifoldeb.

Atal rhag gwneud penderfyniad wnaeth y Llys a chyflwynwyd rhybudd gan gyfreithiwr ar ran Huws Drygist o fwriad i gyflwyno cais am iawndal i'r cyfarfod nesaf. Yn y cyfarfod hwnnw, ym mis Gorffennaf 1878, adroddwyd bod y cerrig ar wely'r afon, o dan y bont ac am ryw 40 lath o'r bont i gyfeiriad y llyn, wedi eu clirio. Mae'n ymddangos fod y Llys bellach yn ystyried bod gwneud hyn yn ddigon ac nad oedd yn bwriadu ail-adeiladu'r bont er gwaethaf argymhelliad y syrffewr. Cyflwynwyd y cais am iawndal ar ran Huws Drygist ond cafodd ei wrthod.

Tua blwyddyn yn ddiweddarach bu cyfarfod arall yn Llanberis. Fe'i cynhaliwyd yn y "Music Hall" dan lywyddiaeth y ficer. Barn unfrydol y cyfarfod oedd bod Pont Afon Goch, a'r ffyrdd yn y cyffiniau, yn parhau mewn cyflwr gwael a pheryglus. Cytunwyd ei bod yn hen bryd i'r awdurdodau roi trefn ar y mater. Ond mae'n debyg na wnaed dim o bwys i ddatrys y sefyllfa ac mai tawelu a wnaeth bob protest yn y diwedd. A ydi llun Dylan yn yr Eco fis Hydref yn profi mai'r unig beth ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd cuddio'r bont o'r golwg gan obeithio y byddai pawb yn anghofio amdani? Tybed be ddywedai'r syrffewr hwnnw o 1877 o wybod y byddai yn 2018 cyn byddai ei argymhellion yn cael eu gweithredu? Mae'n siŵr bod sawl digwyddiad tebyg i lifogydd 1877 wedi digwydd dros y blynnyddoedd. Cafwyd un enghraifft yn 1916, bron i ddeugain mlynedd yn ddiweddarach. Yng Ngorffennaf y flwyddyn honno fe adroddwyd mewn papur lleol. "Llifodd Yr Afon Goch, yr hon sy'n llifo i Lyn Llanberis, mewn ychydig funudau dros ei glannau ac yr oedd yn methu ymarllwys ei chynnwys o dan y pontydd ger Dolperis a Bodafon." Bodafon oedd yr enw bryd hynny ar Y Grosvenor.

Tybed beth oedd yn mynd drwy feddwl Huws Drygist pan ddigwyddodd hyn? Erbyn hynny roedd wedi ymddeol ond yn dal i fyw yn Llanberis mewn tŷ o'r enw Perisfa gyda'i wraig a dwy o'u merched. Ymddangosodd cyfeiriad ato yn 1916 dan newyddion Llanberis yn Y Genedl. Nodwyd ei fod erbyn hynny yn 83 oed, bod ef a'i wraig mewn iechyd rhagorol a'i fod yn dal i bregethu. Mae'n ddiddorol mai fel "Parch R Hughes, Druggist" y mae gohebydd Llanberis yn cyfeirio ato. Er bod "Y Parch" yn naturiol yn cael ei gydnabod mae'n amlwg mai Huws Drygist oedd o i bobol Llanberis hyd y diwedd.

(Gyda diolch i Iwan Roberts am y gwaith ymchwil a'r adroddiad, i Dylan Cadwaladr Parry am y llun o'r bont, ac i Eifion Roberts am lun teulu Huws Drygist. Derbyniwyd mwy o wybodaeth gan Eifion, ac fe'i cyhoeddir yn rhifyn Chwefror. Gol.)

Disodli traddodiadau'r Nadolig

Cyn i awch masnachol hawlio'r wythnosau'n arwain at y Nadolig, roedd ein cyn-deidiau yn dathlu mewn dulliau pur wahanol. Dyma dymor y dydd byrraf, a'r addewid am fwy o oleuni yn ystod y dyddiau'n dilyn a fyddai'n arwain unwaith eto at wanwyn. Dathlu goleuni a wna'i'r hen baganiaid yn y cyfnod hwn: Saturnalia y Rhufeiniaid. A thadogwyd gŵyl Gristnogol – geni Crist, Goleuni'r Byd – ar yr hen ŵyl.

Er hynny, roedd Nos Galan yn llawer pwysicach yng Nghymru a'r Alban am ganrifoedd – ac y mae'n parhau felly gyda'n cefndryd yn y gogledd. Rhai cofio hefyd nad Dydd Nadolig oedd yn bwysig, ond tymor Y Gwyliau. Roedd Y Gwyliau yn ymestyn o Ddydd Nadolig hyd Ionawr 6ed (Distyll y Gwyliau) pryd y rhoid heibio y rhan fwyaf o ddyletswyddau'r fferm. Mewn ambell ardal – a chan rai unigolion mae'n siwr! – cai'r tymor ei ymestyn hyd Ŵyl Fair y Canhwyllau ar Chwefror 2il.

Y gwasanaeth crefyddol pwysicaf ar Ddydd Nadolig oedd y Plygain, a chai ei gynnal mewn rhai ardaloedd mor gynnar a thri o'r gloch y bore, a'r rhai 'hwyr' am chwech y bore. Yn aml, ni fyddai fawr o gwsg y noson cynt, a threulid yr amser yn gosod addurniadau yn y cartrefi; planhigion gwyrdd megis celyn ac uchelwydd gan amlaf. Roedd hefyd yn amser gwneud cyflath. Yn gynnar y bore byddai teuluoedd yn cyd-gerdded i eglwys y plwyf yn cario canhwyllau er mwyn goleuo'r eglwys ar gyfer y gwasanaeth. Byddai'r Rheithor yn cynnal gwasanaeth boreol byr iawn, ac yna byddai'r gynulleidfa yn mynd ati i ganu carolau – yn unawdau, deuawdau, triawdau, pedwarawdau, partion a phawb gyda'i gilydd. Gallai'r gwasanaeth barhau am deirawr. Roedd yn ddigon cyffredin hefyd i feirdd lleol ysgrifennu geiriau carolau newydd i'w canu ar yr hen alawon traddodiadol. Hyd yn oed pan ddechreuodd Anghydfurfiaeth gael gafael ar y werin bobl, mae'n ymddangos mai'r Plygain oedd un o'r ychydig wasanaethau eglwysig a gafodd groeso ganddynt, a chynhelid y Plygain yn y capeli hefyd. Yma, yn yr hen Sir Gaernarfon, mae peth tystiolaeth yn dangos fod y capelwyr yn ymuno yn y plygeiniau eglwysig, a gall hynny egluro pam mai ychydig iawn o blygeiniau sy'n cael eu cynnal yng nghapeli ein hardaloedd heddiw. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae cynnal plygeiniau ar gynnydd mewn sawl ardal – ond nid yma mae'n ymddangos.

Ar Ddydd Nadolig dechreuidd llosgi'r Cyff Nadolig ar yr aelwyd, a disgwyliod iddo fud-losgi hyd Ddistyll y Gwyliau. Ar y dydd hwnnw byddai'r lludw'n cael ei gasglu a'i gadw'n ofalus i'w roi ar y tir pan fyddai tymor hadu gwahanol gnydau'r fferm yn digwydd. Credid fod lwc dda a ffyniant i'r cnydau yn dilyn o gael lludw'r Cyff Nadolig yn wrtaith.

Yn ystod Y Gwyliau hefyd y byddai anifeiliaid y fferm yn cael eu gwaedu, yn enwedig y ceffylau. Roedd hen gred fod gwaedu anifeiliaid y fferm yn llesol iddynt. Dyma'r cyfnod pan fyddai'r ceffylau yn cael eu gwaedu: cyfnod pan nad oedd fawr ddim gwaith trwm yn cael ei wneud ar y fferm. Roedd yn gyfnod pan gai'r ceffylau orffwys a mwy-fwy o oleuni a nerth oddi wrth yr haul – o'r dydd byrraf hyd ddechrau Ionawr.

Distyll y Gwyliau hefyd oedd diwrnod tynnu'r addurniadau – a'u llosgi yn ôl rhai er mwyn cael lwc dda. Ond roedd ardaloedd eraill yn bendant mai anlwc a geid o'u llosgi, a bod angen eu taflu allan i'r caeau a gadael iddynt farw a phydru. Os byddid yn mentro eu llosgi, yna roedd lwc dda yn dod os byddai'r celyn yn llosgi'n fflam loyw ac yn clecian. Ond os mai marwaidd fyddai'r fflam a'r celyn yn gyndyn o losgi, yna byddai anlwc yn dilyn am weddill y flwyddyn.

Dyma hefyd dymor y Fari Lwyd, y traddodiad hwnnw na chafwyd eglurhad perffaith iddo, er fod sawl awgrym gwahanol wedi ei wneud. Y penglog ceffyl a'r blanced yn cael eu cario o dŷ i dŷ yn gofyn am gyfran o fwyd a diod – a'r canu penillion gofyn ac ateb eto'n nodweddiadol. Y gofyn a'r cael yn ddigon tebyg i'r calennig ar ddydd cyntaf y flwyddyn. Ond bu cryn gymysgu ar draddodiadau y cyfnod hwn, oherwydd yn dilyn newid y calendr ym 1752 roedd yr 'hen' ddydd Nadolig bellach yn disgyn ar Ionawr 6ed.

Yn ystod Oes Fictoria y dechreuodd y traddodiadau hyn ddiiflannu, pan ddechreuodd y Nadolig ddod yn dymor mwy masnachol. Dyma gyfnod dyfodiad y goeden Nadolig a'r cardiau Nadolig, a chychwyn diwedd yr hen oes.

Ond mae un traddodiad yn parhau: y gêm bêl-droed rhwng timau cymdogol. Yn yr hen amser, gêm heb reolau oedd. Dynion ifanc dau blwyfyn cystadlu i gael pêl i ddrws eglwys eu gwrthwynebwyr, a gallai'r gêm barhau am oriau bwygilydd. Mae cofnod am gêm ym Maesyfed rhwng plwyfi Glascwm a Betws ble roedd deugain a mwy o aelodau gan bob tim – a'r 'gôl' oedd porth y ddwy eglwys blwyfol. Byddai'n werth bod yn wylwr! Parhaodd y traddodiad hwn rhwng y ddau blwyf hyd 1900. Yng ngwahanol gynghreiriau pêl-droed heddiw, y 'darbi' lleol sy'n debygol o gael ei chwarae dros gyfnod y Nadolig. Oes deugain o lafnau yn fodlon troi allan i gynrychioli Llanberis a Llanrug ar Gae Ffordd Padarn neu Gae Eithin Duon eleni?

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts Ffôn: 870580

Sefydliad y Merched Wedi blwyddyn o weithgareddau niferus a diddorol, bydd aelodau y gangen leol yn edrych ymlaen i ddathlu'r Nadolig. Trefnwyd i gael cinio blynyddol eleni yng ngwesty'r Stables, Llanwnda ar Ragfyr 20fed.

Yr Eglwys Bresbyteraidd Wedi'r gwasanaeth i ddathlu Gŵyl y Geni ar Ragfyr 16eg mae ein diolch ar ddiwedd blwyddyn arall am y cyd-addoli fu ymhlith yr aelodau ac ymwelwyr a'r dystiolaeth Gristnogol yn ein cymuned. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni yn ein gwasanaethau rheolaidd bob Sul am 5 yr hwyr yn Ystafell Gymunedol Caban. Bydd Gwasanaeth Bore Nadolig yr ofalaeth yn cael ei gynnal yng Nghapel Cysegr, Bethel, am ddeg o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson. Gweinyddir y Cymun yn ystod yr oedfa. Dymunwn fel Eglwys Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol i bawb.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Ionawr 2019 am 5 yr hwyr

6: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

13: Parch Eric Jones, Bangor

20: Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyrr

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm


Beics Menai Bikes
RHAN O DEULU ANTUR WALUNFAWR

BEICS NEWYDD AC OFFER BEICIO
AR GYFER OEDOLION A PHLANT



ANRHEGION 'DOLIG FFANTASTIG!

(01286) 676 804 NEU 07436 797969

BEICS MENAI, 1 Cei Llechi, Caernarfon
E-POST: gary.leadbitter@anturwalfawr.org

Eglwys Santes Helen Fel rhan o ddathliadau'r Nadolig yn Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri cyhoeddwn ein gweithgareddau a'n gwasanaethau i ddathlu Gŵyl y Geni.

Ddydd Iau, Rhagfyr 20fed, bu Eglwys Agored pryd estynnwyd croeso i bawb i alw yn yr Eglwys i oleuo kannwyll yng ngolau y Goeden Nadolig. Roedd hyn yn gyfle i gofio am anwyliaid, cleifion, milwyr a'u teuluoedd, yr unig, personau ar goll, y digartref, tlodion, gwledydd â'u pobl mewn argyfwng neu unrhyw achos personol arall. Yn y cefndir roedd sain carolau Cymreig a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi.

Ddydd Sul, Rhagfyr 23ain bydd Gwasanaeth o Naw Llith a Charol i'r teulu cyfan gyda cherddoriaeth gan y Triawd, Ukelele.

Bydd casgliad tuag at Gymorth Cristnogol.

Ar Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24ain, bydd dau Wasanaeth.

Am 11 y bore bydd y Gwasanaeth Preseb – plant a theuluoedd.

Am 9 yr hwyr bydd Gwasanaeth Cymun y Nadolig yng ngolau canhwylau.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaethau hyn.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Bnawn Iau, Rhagfyr 20fed, dathlwyd 'Hwyl yr Wyl' ar y cyd â phlant yr Ysgol gydag eitemau clodwiw ganddynt a darlenniadau gan aelodau'r Pwyllgor. Canwyd yr Hen Garolau a mwynhawyd paned a mins pei a chafwyd cyfle i gymdeithasu. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol nos Lun, Ionawr 28ain, am 7.00 o'r gloch.

Eisteddfod Bentref Cynhelir pwyllgor i drefnu Eisteddfod 2019 ar Ionawr 4ydd, 2019.

Diffibrilydd Os oes gennych ddiddordeb mewn cael diffibrilydd yma ym Mhenisarwaun dewch i'r cyfarfodyn y Neuadd Gymuned nos Lun, Ionawr 14eg am 7.00 o'r gloch.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul, Rhagfyr 16, am 10 y bore aeth llond trên o blant a rhieni i weld Siôn Corn ar Reilffordd

Trên Bach Llanberis. Roedd yn fwynhad pur i weld wynebau'r plant a'r rhyfeddod o gael siarad â Siôn Corn yn ei Groto Nadoligaidd. Fe fwynhaodd pawb y diod a'r mins pei. Dymunir diolch i Ffiona am drefnu'r trip arbennig yma. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn y Sul wedi i'r ysgol ail ddechrau sef, Sul, Ionawr 13eg. Nadolig Llawn Hwyl i chi, blant.

Clwb Pensiynwyr Aeth llond bws o bensiynwyr rhadlon i Westy'r Lion, Cricieth, i ddathlu'r Nadolig. Fe fwynhaodd pawb yr arlwy a chafodd rhai fwynhad o ymweld â'r siopau crefftiau hyfryd. Dymunir diolch i aelodau'r Pwyllgor am drefnu pnawn cymdeithasol llawn hwyl a hyderir y caiff pawb Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Fendithiol yn 2019.

Ein Cydymdeimlad llwyraf â David Hughes, Afallon, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad a thaid amhrisiadwy, sef Merfyn, Twll Clawdd, Llanrug. Rydym yn meddwl amdanoch ar drothwy'r Nadolig fel hyn.

Gwellhad Braf yw clywed y neges galonogol am driniaeth Liz yn Ysbyty Lerpwl a da deall bod Dafydd yn cryfhau wedi tair wythnos o driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau at bawb sy'n derbyn triniaethau ar hyn o bryd ac at y rhai sydd wedi bod yn sâl. Dymunir iechyd a phopeth da i bawb yn 2019.

Cronfa Pensiynwyr Pêl Bonws Loteri - Enillydd mis Tachwedd oedd Miss Nancy Williams, Llys y Gwynt, gyda rhif 10. Llongyfarchiadau!

Mae ychydig o rifau sbâr ar gael os oes diddordeb gennych gael cyfle i ennill £30 y mis yn ogystal â chefnogi Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun. Y gost yw £12 am flwyddyn - cysylltwch â Liz (872421). Diolch

Cyfarchion Nadolig Dymuna Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig.

Dymunir Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

Ysgol Gymuned

Treuliodd PC Dylan Pritchard fore yn yr ysgol unwaith eto y tymor yma. Mae'r disgyblion yn mwynhau cyflwyniadau'r heddwys yn arw ac yn ymateb yn dda yn y gwersi. Unwaith eto cafwyd gwers llawn gwybodaeth a chynngor doeth.

Cynhaliwyd Ffair Grefftau Nadolig lwyddiannus iawn yn yr ysgol nos Iau, Tachwedd 15fed. Roedd y Neuadd werth ei gweld ac yn lliwgar iawn gyda'r holl stondinau. gobeithir cynnal noson arall y flwyddyn nesaf. Diolch i Miss Sharon a Staff yr ysgol am wneud y trefniadau. Roedd plant CA2 wedi paratoi stodin i werthu nwyddau ar gyfer Apêl Nepal. Cafwyd noson ddifyr iawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ymwelodd swyddog o NSPCC â'r ysgol yn ddiweddar a rhoddwyd cyflwyniadau byr i'r holl ddisgyblion. Cafodd y disgyblion hynaf gymeryd rhan mewn gweithdy a phawb wedi elwa o'r profiad.

Cafodd y plant gyfle i ddod i'r Ysgol yn eu pyjamas dydd Gwener, Tachwedd 16eg, gan dalu dirwy o £1. Roedd y Cynngor Ysgol wedi trefnu i werthu cacennau yn ystod egwyl y bore a chafodd pawb gyfle i brynu rhai. Trosglwyddwyd yr arian a gasglwyd, sef £82 i Gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Cafwyd ymweliad gan Mrs Anwen Edwards, Pennaeth Blwyddyn 7 Ysgol Brynrefail, lle cafodd gyfle i hysbysu disgyblion am noson agored Brynrefail yn ogystal â pharatoi disgyblion blwyddyn 6 ar gyfer ymweliad yr wythnos ganlynol.

Treuliodd saith ohonynt ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail dydd Iau, Tachwedd 23ain. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad. Yna i ddilyn daeth Mr Paul Price Griffiths, Pennaeth Adran Dechnoleg Brynrefail yma i ddysgu mwy am y gwaith Technoleg Gwybodaeth a chyfrifiadurol sydd yn cael ei wneud yma yn Ysgol Penisarwaun.

Nos Sadwrn, Rhagfyr 1af, cafodd disgyblion yr ysgol y cyfle i berfformio mewn cyngerdd arbennig yn Ysgol Brynrefail. Cyngerdd oedd hwn wedi ei drefnu gan gyfeillion Cartref Nyrzio Penisarwaun i godi arian i'r staff a gollodd eu gwaith yn y cartref yn ddiweddar. Braint oedd cael y cyfle hwn i ganu cân gyda Chriw Antur Waunfawr, ac yna disgyblion yr ysgol gael canu dwy gân eu hunain. Diolch yn fawr i Anti Annette am ei chymorth i ddysgu'r caneuon.

Bu Cwmni Da yn yr ysgol yn ffilmio'r disgyblion yn canu cân Nadoligaidd. Bydd y disgyblion i'w gweld ar y sgrin fawr sydd i'w lleoli ar y Maes yng Nghaernarfon dros yr Ŵyl.

Yn ogystal bydd sgrin fawr yn cael ei lleoli yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, dros y Nadolig a bydd y disgyblion i'w gweld yn perfformio tair cân yno.

Bydd yr ysgol yn ailagor i'r plant dydd Mercher, Ionawr 9fed.

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd gyda llawer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r ysgol yn ystod y flwyddyn.

CRWYDRO Taith ER BUDD 2019
Taith wfreiddiol

Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019



Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taflen a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn - 01286 881911 (dydd)
Symudol - 07795 485081 (nos)
Ebost - crwydro@crwydro.com

Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r felin...

www.crwydro.com

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWGS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol - 07798 718188

TUDALEN YR IFANC

Leri Tecwyn yn mynd a llygoden i'r theatr

Cyfweliad byr gyda Leri Tecwyn, artist ifanc sy'n wreiddiol o fro'r Eco ac erbyn hyn yn byw ym Mryste.

1- Dywed ychydig am y comisiwn ar gyfer y llyfr:


Mae wedi bod yn freuddwyd i mi ers fy mhientyndod i gael darlunio llyfr i blant, felly oeddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i greu'r gwaith celf ar gyfer 'Tomos Llygoden y Theatr' gan Caryl Parry Jones a Craig Russell. Mae'n lyfr bach i ddwylo bach gyda stori hyfryd am lygoden fach anturus sy'n breuddwydio am fywyd fel seren ar lwyfan y theatr.

2- Beth oedd yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r lluniau?

Dwi wastad wedi caru byd y theatr, ac roeddwn yn teimlo fy mod i eisiau dod a lliwiau a naws hen theatr draddodiadol, grand ac hen ffasiwn i'r llyfr. Felly ddaeth dipyn go lew o'r ysbrydoliaeth o edrych ar bosteri 'vintage' theatr a syrcas (mae gen i nifer o gardiau post a posterï efo rhain arnyn nhw ar fy ngwaliau ac yn flêr ar hyd fy nesg) gyda'r lliwiau dwfn hyfryd a'i ffigyrau bywiog wedi eu peintio gyda llaw.

3-Wyt ti wedi mwynhau'r profiad cyntaf o ddarlunio i lyfr? Byddet ti'n hoffi gwneud eto?

I fod yn onest, ar ôl cael y comisiwn oeddwn i'n nerfus ofnadwy, er fy mod i wedi gweithio fel darlunydd yn ran amser ers rhai blyneddoddd



roedd hyn yn faes hollol newydd i mi, felly roedd hon yn siwrne greadigol go iawn! Ond o fewn wythnos o fyw ym myd Tomos a'r cymeriadau lliwgar mae Caryl a Russell wedi eu creu oeddwn i wrth fy modd ac yn breuddwydio, siarad a meddwl am ddim byd ond llygod bach. Erbyn hyn dwi'n edrych ymlaen yn arw i ail-ymweld a Tomos a darlunio'r llyfr nesaf yn y gyfres, tro yma tra'n defnyddio'r holl bethau dwi wedi ddysgu ar hyd y ffordd o'r profiad cyntaf.

4- Unrhyw beth arall ar y gweill?

Dwi wedi bod i ffwrdd am y 6 wythnos diwethaf yn y mynyddoedd yn Andalusia yn Sbaen felly ddim ond yn y diwrnodau diwethaf mae nghorff i wedi dechrau addasu yn ôl i'r oerfel a pheidio bwyta choriza a olifau i bob pryd. Ond rwyf nawr yn barod i setlo lawr wrth ddesg a dechrau peintio ar gyfer ar yr ail lyfr Tomos! Fydd dau lyfr newydd o'r gyfres yn cael eu cyhoeddi yn 2019 felly fydd hynny'n fy nghadw'n brysur dros gychwyn y flwyddyn newydd.



Cafodd Glwb Rygbi Merched Caernarfon sylw ar y newyddion yn ddiweddar am eu bod yn teithio mor bell a Sir Benfro ar benwythnosau ar gyfer chwarae gemau gyda thimau merched eraill dros Gymru. Roedd gan Eco'r Wyddfa ddiddordeb gwybod mwy am y genod o ardal yr Eco sy'n chwarae i'r clwb felly dyma holi Sara Patchett (SP) o Waunfawr, Cenin Eifion (CE) o Benisarwaun a Hanna Hughes (HH) o Gaeathro.

Ers pryd rydych chi'n chwarae rygbi?

HH - Dwi 'di chwarae Rygbi gyda Caernarfon 'on ag off' ers 10 mlynedd a RGC eleni.

CE - Dwi'n chwarae rygbi ers bron i 19 mlynedd.

SP - Ers tua 25 o flynyddoedd i Gaernarfon.

Pam eich bod yn rhan o dim merched Caernarfon?

HH - Mae bod yn rhan o dim merched Caernarfon yn naturiol fel clwb agosaf i mi. Pan oeddwn yn ysgol Uwchradd Syr Hugh Owen roedd gennym ni dim rygbi cryf a roedden ni gyd yn chwarae i Gaernarfon hefyd

CE - Mae rygbi yn y gwaed, roedd Dad wedi chwarae rygbi i Gaernarfon ac o'n i'n gwylio Dad yn rheolaidd, felly ges i fy ysgogi i drio y gamp ac wedi mwynhau pob eiliad. Nid oedd tîm yn yr ysgol ar y pryd felly mynd i Gaernarfon oedd yr unig opsiwn i mi gael chwarae a ges i groeso cynnes yna ac yno dwi 'di bod ers hynny. Dim jest tîm ydy'r tîm

yma, dwi wedi gwneud ffrindiau oes o bob cefndir ac oedran!

Beth ydy'r heriau mwyaf sy'n eich wynebu chi fel chwaraewyr?

SP - Dwi'n weithiwr cymdeithasol i Gyngor Gwynedd, mae'r swydd reit 'stressful' ac mae cyrraedd adref yn hwyr ar nos Sul ar ôl treulio tua 10 awr ar y bws a gorfod codi i fynd i gwaith bora dydd Llun reit flinedig!

CE - Yr her mwyaf i mi ydy amser. Rwyf yn fam i ddwy o ferched ifanc ac oherwydd fod gymaint o bellter i deithio lawr i gemau yn y de mae o yn golygu cychwyn ben bore a ddim adra tan hwyr y nos felly mae hi'n her i gael y popeth yn barod erbyn yr wythnos ganlynol.

HH - Yr her mwyaf yw gwneud

amser i ymarfer a chwarae. Mae chwarae gemau pob dydd Sul yn gallu bod yn anodd yn enwedig os yn gweithio bore Llun gan nad oes diwrnod i'r corff ymlacio!

Beth fydddech chi'n hoffi dweud wrth ferched ifanc bro'r Eco?

HH - Merched Ifanc y Fro - Amdani!! Gwnewch y fwyaf i phob cyfle. Mae llawer o gyfleoedd erbyn heddiw a dwi'n credu fod gweithgaredd ar gyfer pob unigolyn mond i chi ddod o hyd iddo - felly os nad ydych wedi - rhwch gynnig ar rygbi. Fel Swyddog Chwaraeon am Oes rwyf yn hybu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon foed yn chwaraewyr, hyfforddwyr neu gwirfoddolwyr.

SP - Fysai'n neis gweld mwy o genod lleol yn cymryd rhan mewn rygbi i sefydlu mwy o timau lleol. Mae o'n ffordd da o gwneud ffrindiau a cymdeithasu!

CE - Os ydych efo diddordeb chwarae rygbi mae digon o gyfleon yn yr ardal. Mae tîm merched ac merched dan 18 (Blwyddyn ysgol 11 - 13) yn hyfforddi pob nos lau hefyd Mae tîm merched y 'Môr Ladron' (Blwyddyn ysgol 8 - 10) yn hyfforddi pob nos Lun yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Mae'n gyfle i wneud ffrindiau a chadw yn heini wrth drin y bel hirgron. Y peth gorau a wnes i erioed a rwyf yn gobeithio bydd fy merched i yn chwarae yn y dyfodol.



Enwau rhai caeau yn rhannau isaf Llanddeiniolen

Mae gan batrwm ein caeau lawer iawn i'w ddweud am fywyd yn y gorffennol ac am drefniadaeth cymdeithas ein cyn-deidiau. Yn anffodus, anodd iawn yw darllen rhai o'r arwyddion a dilyn rhai o'r arwyddbyst sy'n ein harwain yn ôl i'r gorffennol hwnnw. Rhaid cadw mewn cof fod ffurf yr enwau ar y caeau yn ogystal a'r caeau eu hunain wedi newid. Mewn sawl achos mae'r hen enwau wedi eu disodli gan enwau diweddarach. Mae'r rhan fwyaf o'r enwau gwreiddiol wedi eu cofnodi ar Fapiau'r Degwm, yn dyddio o tua 1836 – 1845. Yn anffodus, yn achos plwyf Llanddeiniolen, nid yw pob enw cae wedi ei gofnodi. Ond gan fod rhannau helaeth o'r plwyf yn eiddo i Stad y Faenol ar wahanol gyfnodau yn ei hanes, gellir darganfod nifer fawr o enwau caeau o astudio Mapiau Arolwg y stad honno.

Mae nifer o gaeau rhannau isaf plwyf Llanddeiniolen wedi eu casglu gan Mrs Elisabeth Evans, Pen Parc, Bethel – a hynny yn 2011. Gyda diolch am gopi o'r rhestr. Mae'r caeau wedi eu lleoli yn ffermydd Coed Bolyn, Tyddyn Berth, Gelli, Wern, Cefn, Ty Mawr, Garreg Goch, Llwyn Bedw, Tyddyn Forgan, Llys y Gwynt a Blaen Parc. Cyffredin iawn yw llawer o'r enwau – fel yn y gorffennol: enwau fel cae cefn, cae mawr, cae bach, cae drws beudy, cae eithin ac yn y blaen. Ond mae enwau digon diddorol hefyd – ond tybed oeddent yn bod ganrif a hanner a mwy yn ôl?

Dyma rai o'r enwau diddorol sy'n dyddio o 2011:

Coed Bolyn a Thyddyn Berth: Cae deg ar droia, Cae Rowland Jones a thair gweirglodd – y weirglodd, weirglodd gron a'r weirglodd ganol. Ganrif a hanner yn ôl roedd gweirglodd ddu

yma. Ond beth ddigwyddodd i Cae'r Odyn, Cae Merllyn a Chae'r brain?

Gelli: Cae doctor a Chae cariadon ar ben allt y Caerau; Cae Owain (am fod Owain Glyndwr wedi sefyll ar faenmawr yn y cae yn ôl traddodiad). A'r cae mwyaf diddorol o'r cyfan yw Cae'r Diafol neu Boncan yr Ysbryd. Ond does dim cofnod o gwbl o'r rhain ganrif a hanner yn ôl.

Cefn: Cae pladur Ffowc a Chae erw'r Iôr. Dim son amdanynt ganrif a hanner yn ôl.

Wern: Cae erw engan. Ganrif a hanner yn ôl roedd yma Gae brewhouse a Chae lloch ddu. Mae Cae'r maen wedi goroesi'r holl flynyddoedd.

Yn y ffermydd uchod mae'r enwau mwyaf diddorol yng nghofnod 2011. Ond o droedio'r gorffennol, roedd Cae'r Odyn yn Nhyddyn Forgan, ond wedi diflannu erbyn heddiw. Mae 'cae'r odyn' yn weddol gyffredin yn y gorffennol oherwydd y galw am galch i wella ansawdd y pridd. Yn Llwyn Bedw roedd Cae gwndwn, Cae heiddan ddu a Chae heiddan gwyn, Cae gongl-ddu a Gweirglodd cae bedw. Tybed pa bryd y diflannodd yr enwau canlynol o fferm Ty Mawr: Cae Hafotty eithin, Cae'r efail, Cae cregin, Cae'r fawnog, Cae Richard a Chae Briwlin.

Yn ddelfrydol, wrth gwrs, mae angen gwybod lleoliad y caeau a enwir yn rhestr 2011 – a'u cymharu efo'r enwau ym mapiau arolwg y Faenol a/neu'r Map Degwm. Mae'n syndod cymaint o newid a fu mewn enwau caeau dros dreigl y blynyddoedd.

Dosbarthiadau Sant Ioan, Llanrug



St. John Ambulance Class, Llanrug, 1929.




Mae'r ddau lun wedi eu dyddio yn 1929 ac wedi eu tynnu yng nghefn y Sefydliad Coffa, ac yn dangos yr adeilad fel yr oedd cyn cael ei adnewyddu. Dosbarth o ddynion – mewn siwtiau, ond y merched yn yr ail lun i gyd gyda gwisg yn tebygu i nyrsus. Ond tybed a oes enwau?

Parti Nadolig i'r Ifaciwîs

Hawdd iawn yw anghofio amgylchiadau byw yn yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn enwedig y dogni bwyd, a barhaodd wedi terfyn y rhyfel. Ond o leiaf roedd plant y fro yn cael treulio'r Nadolig gyda'i teuluoedd. Nid felly yr ifaciwîs druan; ymhell oddi cartref, a'u rhieni a'u perthnasau yn ninasoedd Lerpwl a Manceinion dan fygythiad dyddiol.

Yn y Waunfawr cafodd yr ifaciwîs barti Nadolig ddiwedd y flwyddyn 1943, a diolch i Gwilym Morris Jones am gopi o'r dderbyneb hon am fara a chacennau ar gyfer y te parti a archebwyd o'r becws lleol.



Deinameit!.....

Yn ystod y mis diwethaf bum yn arwain taith Cymdeithas Edward Llwyd dros y Clegir – a’r cerddwyr wedi rhyfeddu at y ffaith fod y groes lle glaniodd olwyn trol o ddamwain y powdwr oel yn parhau i gael ei marcio gan rai yn mynd heibio. Mae hanes y ddamwain ar Gors Llwyncoed yn 1869 yn ddigon cyfarwydd bellach, ond nid yw’r amgylchiadau yn y blynyddoedd a ddilynodd mor wybyddus.

Cafwyd peth o’r hanes yn rhifyn 364 (Mawrth 2009) o’r “Eco”. Ym mis Mehefib 1872 daeth Alfred Nobel i Chwarel Glynrhonwy i arddangos manteision deinameit. Cynhaliwyd nifer o arbrofion i ddangos pa mor ddiogel oedd deinameit o’i gymharu â phowdwr oel (nitro glycerine). Gollyngwyd bocsus o ddeinameit o uchder, a gollyngwyd gwastraff llechi o uchder ar ben bocsus o ddeinameit. Dim ffrwydrad! Mae’n debyg mai’r arbrawf a ddangosodd pa mor ddiogel oedd deinameit, oedd yr un ble gorchuddiwyd ef â choed, tywallt petrol drosto – a’i roi ar dân. Llosgodd am 25 munud gyda fflam goch gryf, ac yna ffrwydrodd gan adael twll pum troedfedd yn y ddaear. Byddai wedi peryglu bywydau pawb o’i gwmpas pe bai’r un peth wedi ei wneud i bowdwr oel!

Ond mae’n amlwg fod perchnogion rhai o chwareli llechi’r gogledd eisoes yn gwybod am fanteision deinameit, oherwydd fis cyn arbrofion Alfred Nobel yn Llanberis roedd Samuel Holland, ar ran perchnogion chwareli llechi Siroedd Caernarfon a Meirionnydd, rheolwyr, stiwardiaid a gweithwyr chwareli Llanberis wedi cyflwyno petisiwn i’r Llywodraeth yn galw am ddiddymu’r “Nitroglycerine Act 1869”. Hon oedd y ddeddf a ddaeth i fodolaeth yn dilyn y ddamwain echrydus ar Gors Llwyncoed. Roedd yn rheoli ffrwydron – ac yn eu plith, roedd deinameit, a hynny am fod rhywfaint o nitroglycerine yn cael ei ddefnyddio yn ei wneuthuriad.

Aflwyddiannus fu’r cais, ac efallai i’r hyn ddigwyddodd ym mis Hydref y flwyddyn honno fod yn fodd i beidio diddymu’r ddeddf. Ac yma, ar lethrau’r Cefn Du y digwyddodd y ddamwain ddifrifol honno hefyd. Roedd y Chwarel Fawr yn agos i gopa’r Cefn Du, a’r mwyafrif o’r gweithwyr yn dod o bentref y Waunfawr. Ac yr oedd deinameit eisoes yn cal ei ddefnyddio yno – ond gyda chanlyniadau difrifol yn y mis hwn. Lladdwyd Richard Eames y goruchwyliwr a’i gyd-weithiwr, Richard Hughes,



Hendy, Waunfawr pan ffrwydrodd deinameit oedd ar fin cael ei ddefnyddio. Yn y cwest y daeth gwir achos y ddamwain i’r amlwg. Mae’n ymddangos ei bod yn arferiad cynhesu’r deinameit cyn ei osod yn barod i’w danio. Onid oedd wedi llosgi am bron i hanner awr cyn ffrwydro yn Chwarel Glynrhonwy ychydig fisoedd ynghynt? Felly, roedd ei gynhesu yn ddigon diogel! A’r modd roedd y deinameit yn cael ei gynhesu yn y Chwarel Fawr oedd ei osod ar stôf. Ac yr oedd dau bwys o ddeinameit wedi ei boethi ar stôf wedi ffrwydro a lladd dau weithiwr.

Bu’n rhaid disgwyl tair blynedd arall cyn newid y “Nitroglycerine Act”, ac yn 1875 daeth yr “Explosives Act” i fodolaeth. Mae’n syndod fod dwy chwarel ar lethrau’r Cefn Du wedi chwarae rhan allweddol mewn sefydlu deddfau i reoli a diogelu’r defnydd o ffrwydron.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

**GERAINT OWEN
CARPEDI**

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd


(01286)650552 Mob. 07712779475

**CARPEDI
TEILS
VINYL**
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

**TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM**

Sion Roberts ▶ 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch **ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)**



Cyngerdd Adfent Capel y Rhos

Côr Meibion Dyffryn Peris ac artistiaid eraill yn cynnal cyngerdd Adfent yng Nghapel y Rhos i godi arian i gael diffibriliwr arall ar gyfer y pentref.

Cyfarchion

Dymuniadau gorau am Nadolig dedwydd a hapus i bawb gan obeithio y bydd y rhai sydd ddim mor dda eu iechyd yn gwella yn fuan.

Hwyl fawr i'r plantos hefo eu anrhegion!

Ni fydd Arthur a Dilys Jones, 12 Hafan Elan, yn anfon cardiau Nadolig eleni. Maent yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Babi Newydd Croeso mawr i Hari - Llew, mab bach Siân a Marc (Bryn Afon, Bae Colwyn), brawd bach i Osian Jack ac ŵyr newydd i Gwilym Davies, Minffordd a Miriam (Llanrug gynt). Pob bendith i chi i gyd.

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant- Rhagfyr
1.. Valmai Williams, Aberdesach
2.. Valmai Owen, Llanrug

Marwolaeth Yn dawel ar ôl gwaeledd byr bu farw Clive Pritchard, 49 Nant y Glyn, yn 69 mlwydd oed. Magwyd Clive am flynyddoedd yn Llanrug yn fab Mr a Mrs Norman Pritchard. Colled drist i'w blant, Dawn, Martin, Kevin, David a Tesni a'u teuluoedd. Roedd yn daid annwyl i 9 o wyrion a wyresau ac yn frawd cariadus i Paul, Barry, Janet, Stephen, Stuart,

Mark a'r ddiweddar Ann.

Cydymdeimlwn yn arw â chi yn eich profedigaeth.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Rhagfyr 11, croesawyd nifer dda iawn o aelodau i'r Cinio Nadolig yn y Felin, Llanrug. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Hyfryd oedd clywed y newyddion da bod Menna yn cryfhau a byddwn i gyd yn falch o'i gweld yn cael dod adref. Llongyfarchiadau mawr i'r ddeuawd Alffa, sef Dion ac Eifion ar eu llwyddiant ysgubol - mae Dion yn ŵyr i Jean Roberts, Penisarwaun. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol. Cydymdeimlwyd â Heulwen ar golli modryb arbennig, Nannie, Bryn Tirion gynt, a thrist clywed am farwolaeth Merfyn, Twll Clawdd, cefnder i Olwen ac Ann a ffrind annwyl i'r teulu oll.

Derbyniwyd llythyr gan Wil Aaron yn cynnig ymweld â changhennau o Ferched y Wawr yma yn y gogledd i roi sgwrs am wraig o'r enw Martha Hughes Cannon. Yn Awst 2020 bydd seremoni yn Neuadd Genedlaethol y Cerfluniau yn Washington DC i ddadorchuddio cerflun arbennig ohoni. Cymraes oedd Martha a'r wraig gyntaf i gael

ei hethol i Senedd-dy Utah, y wraig gyntaf oll i'w hethol i unrhyw Senedd-dy drwy'r Unol Daleithiau. Y mae Wil Aaron yn ceisio lledu gwybodaeth am ei hanes a'i gyrfa arbennig drwy gynnig dod i siarad â ni. Ni chodir ffi na chostau ond yn falch o gyfraniad i 'Gronfa Carreg Martha' os yn bosibl.

Cynhelir Cwrs Crefft y Gogledd yn Glasdir, Llanrwst, Ionawr 19 2019 o 10 hyd 4 o'r gloch. Cyfyngir y cyrsiau i 15 aelod, felly'r cyntaf i ymateb!

Llongyfarchwyd Mair a'r tîm am drefnu cyngerdd gwerth chweil tuag at y gost o gael diffibriliydd arall i'r pentref. Gwnaed elw sylweddol o £820. Cynhelir cinio Meirwen yng Ngwesty'r Oriel, Llanellwyr, ar Fawrth 9fed. Diolchwyd i Carys, Ann, Eirianwen a Pat am y trefniadau trylwyr ac am sicrhau noson gymdeithasol i ddathlu'r Nadolig. Brethyn Cartref fydd gennym nos Fawrth, Ionawr 8fed 2019.

Dymunir Nadolig Llawn Llawenydd a Blwyddyn Newydd Fendithiol yn 2019 i bawb.

Casglu Sbwriel

"Mae Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo yn awyddus i gynnal digwyddiad Casglu Sbwriel unwaith yn rhagor o gwmpas pentref Llanrug. Rydym yn bwriadu cynnal y digwyddiad ar y dydd **Sadwrn, y 12ed o Ionawr, 2019**, o 10yb tan o gwmpas hanner dydd. Bydd pawb yn cwrdd yn y Sefydliad Coffa cyn y casglu, gan ddychwelyd i'r un man wedi'r weithgaredd. Croeso cynnes i bawb gymryd rhan o bob oedran. Bydd cyfarpar casglu sbwriel ar gael. Dyma gyfle i chi gymryd rhan gadarnhaol yn y gymuned yn y flwyddyn newydd!

Dewch yn llw!" Diolch!

Ar ran Pwyllgor Hamdden, Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo


Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018

Mewn cystadleuaeth sydd yn agored i Gynghorau Cymuned a Thref oddi fewn i ardal Dwyfor ac Arfon, mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi dod yn ail yng nghystadleuaeth 'Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018'

Mae'r gystadleuaeth yn cael ei hyrwyddo gan Ymgyrch Diolgelu Cymru Wledig sydd yn creu ffocws ar bentrefi ag ysbryd cymunedol fywiog a naws am le sy'n cael ei adlewyrchu mewn pentref y gofali'r amdano.

Mae'r gystadleuaeth yn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd mewn cymunedau gwledig yn fwy diweddar. Mae delwedd boblogaidd pentrefi deniadol yn cael eu cadw'n daclus ac yn rhydd o sbwriel, â digon o arddangosfeydd blodau a lawntydd gwyrdd wedi'u torri'n dda wedi dominyddu'r gystadleuaeth yn y gorffennol, er bod y nodweddion hyn wrth gwrs yn elfennau sylweddol o hyd. Mae'r gystadleuaeth yn chwilio am bentrefi ag ysbryd cymunedol bywiog sy'n arwain at ymdeimlad o foddhad a lles ymysg eu trigolion. Bydd hyn yn cynnwys pentrefi lle mae cyfleusterau a gwasanaethau lleol wedi'u cadw a lle mae'r amgylchedd lleol yn cael ei anwylo a gofali'r amdano.

Yn y noson wobrwyo a gynhaliwyd yn ddiweddar dywedodd y Cynghorydd Llywelyn Williams, cadeirydd y pwyllgor sydd a gofal am faterion cyffelyb ar Gyngor Cymuned Llanrug, "Mae'r wobwr yma yn glod i bawb yn y gymuned sydd yn darparu cyfleusterau, gweithgareddau a cyfleoedd i drigolion o bob oedran. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi cystadlu o'r blaen mewn unrhyw gystadleuaeth cyffelyb, felly mae dod yn ail yn ein ymgyrch gyntaf yn ganmoladwy. Bydd y Cyngor yn adeiladu ar hyn ar gyfer y gystadleuaeth nesaf."



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Ysgol Gynradd



Trip Nadolig

Cafodd y plant Meithrin drip hudolus i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i gyfarfod Sion Corn.



Apel Bocsus Nadolig

Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth.

Cinio Nadolig

Y plant wedi mwynhau cinio Nadolig blasus. Diolch yn fawr iawn i Anti Bethan a merched y gegin.



GWOBR I FYNWENT LEOL

Mae mynwent Cyngor Cymuned Llanrug wedi ennill gwobr yng Nghystadleuaeth Cenedlaethol Mynwentydd y Flwyddyn 2018 ac ar yr ymgyrch gyntaf.

Mae gwobrau mynwent y flwyddyn, wedi bod o amgylch ers dros 20 mlynedd ac mae mynwent Cyngor Cymuned Llanrug wedi ennill y wobwr arian oddi fewn i gategori mynwent y flwyddyn gyda llai na 1,000 o feddi. Fe dderbyniwyd y wobwr yng nghynhadledd 'Institute of Cemetery and Crematorium Management Learning Convention and Exhibition' a gynhaliwyd yn gynharach.

Dywedodd Philip Potts o'r sefydliad,

"Mae'r gwobrau yn gyfle gwyb i gydnabod y gwaith caled mae aelodau'r Cyngor yn ei wneud ac yn tanlinellu'r rôl bwysig a canolog mae'r fynwent yn ei gymryd oddi fewn i'r gymuned. Maent yn darparu llefydd distaw ar gyfer myfyrdod a harddwch heb anghofio eu pwysigrwydd ar gyfer materion hanesyddol, cymdeithasol ac ecolegol. Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi perfformio yn eithriadol drwy gyfnod asesu eang, sydd yn canolbwyntio ar safonau'r diwydiant, ymarfer da a rhyddid yr unigolion i ddewis."

Dywedodd Y Cyngorydd Hefin Jones, Cadeirydd y pwyllgor, sydd a chyfrifoldeb a ofalu am y fynwent, "Mae'r wobwr yma yn gydnabyddiaeth gan y diwydiant o'r ymroddiad a'r gwaith a ymgymerir gan y Cyngor Cymuned yn y fynwent. Mae'n cadarnhau'r sylwadau cyson a dderbynnir oddi wrth ei defnyddwyr am ei chyflwr, yn cydnabod y pwysigrwydd mae'r Cyngor yn ei roi tuag ati, ac yn galluogi Cyngor Cymuned Llanrug ddarparu gwasanaeth o safon, sydd yn ddibynadwy a chyfeillgar. Yn naturiol, mae'r Cyngor yn hynod o falch o dderbyn yr anrhydedd yma."



Mae'r gystadleuaeth Mynwentydd y Flwyddyn wedi ei gefnogi gan y canlynol:

Memorial Awareness Board (MAB)

Institute of Cemetery and Crematorium Management (ICCM)

The Federation of Burial and Crematorium Authorities (FBCA)

The Society of Local Council Clerks (SLCC)

National Association of Memorial Masons (NAMM)

Mae Mrs Rhiannoon Roberts, Cefn Rhos Isaf, yn ymddeol y mis hwn o'i swydd fel gohebydd pentref. Bu'n gyfrifol am gasglu'r newyddion am nifer o flynyddoedd, a mawr yw ein diolch iddi am gyflawni'r gwaith hwnnw. Gohebydd newydd pentref Caeathro yw Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen. Gallwch gysylltu ar lowriceiriog@hotmail.co.uk Llawer o ddiolch iddi am ymgymryd â'r gwaith. Croeso i dim yr "Eco".

Tynfa mis Tachwedd (daw canlyniad y dynfa fawr Nadolig yn rhifyn Ionawr)

1af £40 (86): Laura, Rhanna, Stad Glandŵr; 2il £25 (15): Robert Roberts, 23 Rhes Glangwna; 3ydd (£15): Catrin Jones, 13, Erw Wen; 4ydd (£5): Bethan Iwan, Carrog, Rhos Bach.

Profedigaeth Yn dawel yng nghwmni ei theulu ar Dachwedd 23ain yn ei chartref, Castellmai, Caeathro, bu farw Sioned Emrys, merch John a Menai Williams a chwaer a chwaer yng nghyfraith arbennig i Nia, Alma a Harri, Meic a Iola. Cynhaliwyd angladd hollol breifat. Anfonwn gydymdeimlad cywir iawn i'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth am Sioned.

Gwellhad Dymunwn yn dda i Alun Roberts, Caeathro Bach, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Daliwch ati i wella, Alun.

Llongyfarchiadau i Einir Roberts, 3 Erw Wen, ar ddod yn nain i Osian Huw, mab bach cyntaf i Catrin Gwenllian ac Iwan Trefor Jones, a dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

Carolau Byddwn wedi cael noson o ganu carolau o gwmpas coeden Nadolig hardd y pentref erbyn i chi ddarllen hwn, arferiad hynod gynhesol cyn yr Ŵyl. Diolch i bawb fu'n trefnu eto eleni ac i Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn arbennig sydd yn weithgar trwy'r flwyddyn.

Nadolig Llawen Dymuna Bethan, Aled, Rhiannon (a Lowri sydd yn ymuno hefo ni fis Ionawr) Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Caeathro, Rhos Bach a'r cylch, gan ddiolch am yr holl gefnogaeth a roddwyd i'r Eco yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cofiw'n annwyl at nifer o deuluoedd yr ardal sydd a chadair wag ar eu haelwydydd y Nadolig hwn, a dymunwn fendith arnoch.

Gwasanaethau Ionawr

Ionawr 6 am 2.00: Oedfa gyntaf y flwyddyn dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson

Ionawr 20 am 2.00: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES

CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720



"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI
http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

Blwyddyn 2018 Mae yn anodd credu ein bod yn nhymor y gaeaf unwaith eto a'r Nadolig wrth y drws! I ble mae'r flwyddyn wedi mynd? Tybed a ydynt yn mynd yn gynt fel ag yr ydym yn heneiddio, felly yr ydym yn cysuro ein hunain beth bynnag. Llawer wedi cael profedigaethau mawr ac yn falch o weld y flwyddyn yn mynd allan. Cydymdeimlwn yn fawr efo nhw. Wrth gwrs, fe gofiwn y flwyddyn yma am yr haf bendigedig a gawsom, hefyd am yr Eisteddfod Genedlaethol hollol wahanol a gawsom yng Nghaerdydd.

Marwolaeth Ar y 19 o Dachwedd collwyd un arall o blant yr ardal, sef Lizzie Catherine Roberts, Tan y Graig, Fachwen, ac yna 7 Maes Eilian, Deiniolen, yn 84 mlwydd oed. Unig ferch y diweddar Mr a Mrs Robert Jones. Fe anwyd Bet fel ag yr adnabyddem hi, yn Neiniolen ond ifanc iawn ydoedd pan y bu i'r teulu symud i'r Fachwen.

Daeth y diwedd i Bet yn hynod o sydyn ar ôl rhyw dri mis yn Ysbyty Gwynedd. Bu ei hangladd yn Eglwys Crist Llandinorwig o dan ofal y Canon Idris Thomas. Bu iddi fod yn hynod o ffyddlon yn yr eglwys wedi symud i Ddeiniolen. Yr oedd y 21ain o Dachwedd yn ddiwrnod andros o stormus, gwynt cryf ac yn tywallt y glaw. Er y tywydd mawr nid oedd plant Dinorwig wedi anghofio caredigrwydd Bet ac yno yn yr angladd yr oeddynt yn talu y gymwynas olaf. Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yn yr Eglwys a thyrfa dda wedi dod ynghyd i ddangos parch iddi, er maint y tywydd ac yna yn dilyn yn Amlosgfa Bangor.

Cwsa a gwyn dy fyd yng ngofal y Brenin Mawr. Diolch am gael adnabod un fel Bet.

Cyfarchion y Nadolig Dymunaf Nadolig Llawen iawn i bawb yn yr ardal ac i holl ddarllenwyr yr Eco. Cofion annwyl iawn at Mrs Megan Morris ym Mhlas Garnedd, Llanberis, ers rhai blynyddoedd bellach. Cofio yr ardal atoch yn annwyl iawn.

Diolch i'r Cynghorydd Elfed Wyn Williams am y rhedeg yma ac acw y mae wedi ei wneud ar hyd y flwyddyn yn yr ardal ac am y gwaith mawr y mae wedi gorfod ei wneud i drio cael gwasanaeth trafniadaeth inni yma yn yr ardal. Mae wedi gwneud ei orau glas inni, er efallai nad yw yn llwyddo bob tro ond nid o ddiffyg trio mae hynny.

Llawer o ddiolch i ti, Elfed, a gobeithio am heddwch dros y gwyliau. Nadolig Llawen.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



Un funud fach ...

YRADDURN

Un gwael ydw i am sylwi ar bethau yn nhai pobl eraill. Ond yr adeg hon o'r flwyddyn mae'n anodd peidio â sylwi ar addurniadau Nadolig o bob lliw a llun. Mewn ambell i dŷ, mae'n amlwg fod oriau o baratoi a blynyddoedd o grynhoi addurniadau chwaethus y tu ôl i'r wledd weledol. Roedd hynny'n wir am un tŷ y bûm ynddo'r wythnos ddiwethaf. Wnafti ddim dweud lle mae'r tŷ hwnnw na phwys yn byw ynddo; ond doedd o ddim yn nalgylch yr Eco! Digon yw dweud fod yr addurniadau'n werth eu gweld. A dyna pam y synnais o weld yr addurn diweddaraf a brynwyd gan y teulu. Doedd o ddim y peth mwyaf hyll i mi ei weld erioed; mi welais waeth mewn aml i siop. A defnyddio gair Saesneg, braidd yn 'tacky' oedd o; 'tacky' iawn hyd yn oed! (Mae'r cyfieithiad Cymraeg - 'di-chwaeth' - yn awgrymu ei fod rywsut yn waeth nag ydoedd.) 'Tacky' oedd o; heb fawr o chwaeth.

Rhag i chi ddechrau dweud fy mod yn hynod o ddigywilydd, mi ddywedaf eto mai un gwael ydw i am sylwi ar bethau yn nhai pobl eraill. Pobl y tŷ dynnodd fy sylw at yr addurn; y nhw ddeudodd ei fod yn 'tacky'; y nhw ddeudodd eu bod yn ymwybodol o hynny wrth ei brynu ond eu bod eisiau rhywbeth gwahanol i'r arfer, am unwaith, ac am newid! A doedd ots yn y byd ganddyn nhw pwy fyddai'n ei weld yng nghanol yr addurniadau chwaethus a lanwai'r ystafell.

Fel arall yr oedd hi adeg y Nadolig cyntaf pan ddaeth yr harddaf, y godidocaf a'r mwyaf chwaethus i ganol byd a oedd, yn yr ystyr lawnaf i'r gair, yn gwbl 'ddi-chwaeth'. Oherwydd i fyd diflas, anhyfryd, anwedus a gwrthun y daeth Iesu. Dod a wnaeth i ganol llanast a budreddi a drygioni'r byd. Mor annisgwyl ac mor rhyfedd oedd gweld Duw ei hun yn dod atom yn y bachgen bach a aned i Mair. Mor rhyfedd oedd gweld yr un perffaith yng nghanol amherffeithrwydd a drygioni'r byd. Mwy rhyfedd fyth ydi sylweddoli iddo ddewis hynny.

Daeth Iesu atom, nid am iddo gael ei orfodi i ddod ond am iddo ddewis dod, er mwyn cyflawni gwaith ei Dad nefol. Daeth y Brenin i wasanaethu eraill; daeth goleuni'r byd i ganol ei dywyllwch; daeth yr un perffaith i gymryd y bai am bechodau pobl eraill; daeth awdur bywyd i ddioddef ac i farw dros eraill. Daeth addurn mwya'r nef i harddu'r byd ac i gyfoethogi ein bywydau ninnau. A'r Nadolig hwn eto, mae'n ei gynnig ei hun i ni yn addurn pennaf ein bywydau ninnau.

Nadolig Llawn iawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Premier

Y Stofa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Pigion Byd Natur

Y Dringwr Bach - Aderyn go Ddiddorol!



Wyddwn i ddim, hyd nes taro arno, hynny ar dudalen rhif 39, yng nghyfrol John Ashton, sef Adar ein Gwlad (1907) a'r llyfr cyntaf erioed gyda llaw sy'n trafod adar yn yr iaith Gymraeg, mai'r dringwr bach ydyw'r grepianog. Enwau eraill arno ydyw'r cropiedydd, ac ymlusgydd y coed. Onid ydyw ein heniaith d'wedwch yn orlawn o enwau llawn gloywder, a'r cyfan yn werth eu cadw ar dir y byw?

'Aderyn,' ebe'r Powysyn John Ashton, sydd 'oddeutu yr un faint â'r wrenol, (12.5cm ran hyd, wyddoch chwi) ac iddo big hir-fain, a chynffon gymharol hir, honno yn un big-fain. Ardaloedd coediog ydyw ei hoff gynefin, ble y'i gwelir 'yn rhedeg i fyny ac i lawr i goeden fel llygoden, ac fel y wiwer yn cadw ar yr ochr bellaf ... Ymbortha ar drychfilod a phryfed copyn. Gwelir... yn y gauaf yng nghwmni gwahanol fathau o Sywidwod,' sef titwod, hefyd niconiaid.

Ddwywaith erioed yn fy nhama'd hanes y gwela's i'r aderyn hwn. Yma yn Arfon y gwelais ef am yr eildro, hynny 08.02 bore dydd Gwener, Mawrth 19eg, y flwyddyn 2010. Fe'i gwelais, a chofnodi'r digwyddiad fel a ganlyn yn y dyddiadur byd Natur, sydd yma'n hel llwch ers rhai blynyddoedd bellach:

'Heddiw'r bora taro ar ryfeddod! Ia! y dringwr bach, a oedd yn cropian ar hyd boncyff coeden coll-ddail, a hynny wrth y drofa, a'r blwch postio, yma ar ran uchaf lôn goed Glasgoed!'

Nis gwelais wedi hynny! O bosib, creadur bychan tra ffodus fues i, a'm bod yno i'w weld ar yr amser iawn! Pwy a wŷr! Ond y cropiedydd, y dringwr bach, y grepianog ac ymlusgydd y coed, pryd ddiwethaf, os nad dim o gwbl, welsoch chwi'r aderyn tra diddorol hwn?

CEUNANT Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

Llongyfarchiadau i Enfys Roberts, Gwynfryn, Ceunant, ar ei phenodiad i swydd Bydwraig Gymunedol ym Meddygfa Waunfawr. Pob dymuniad da i ti.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Ymweliad Nurture UK ag Ysgol Brynrefail



Fel rhan o ymdrech yr ysgol i ennill achrediad Ysgol Sy'n Annog gan Nurture UK daeth Elin Sanderson atom am y diwrnod ar ddydd Llun, Rhagfyr 10fed. Bwriad yr ymweliad oedd cynnig hyfforddiant i rai aelodau o staff yn ogystal â thrafod cynnydd yr ysgol tuag at ennill yr achrediad ymhen blwyddyn gyda staff allweddol eraill. Rhoddodd Elin gyflwyniad hynod ddiddorol a phwysig i Benaethiaid Blwyddyn yr ysgol a rhai o staff yr adran Anghenion Dysgu Ychwanegol oedd yn codi ymwybyddiaeth am ymlyniad. Treuliodd amser hefyd gyda staff Hafan a Hwb Ysgol Brynrefail sefein uned cynhwysiant. Manteisiodd Mr Sion Jones, Ms Hannah Bright a Mr Alun Pritchard ar ei harbenigedd ym maes cynhwysiant a'i phrofiad gyda rhaglenni ymyrraeth annog (nurture). Cafodd Mrs Gwenno Bebb gyfle gwerthfawr hefyd i drafod datblygiadau'r ysgol ym maes annog gyda hi yn ystod y dydd. Caswon i gyd fudd o dreulio amser gyda hi yn ystod y dydd ac elwa o'i phrofiad a'i chynghor.

Ffair Nadolig BAC blwyddyn 10



Ar ddydd Gwener, Rhagfyr 7fed Bu blwyddyn 10 yn brysur iawn yn paratoi ac yn cynnal Ffair Nadolig ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 ac 8. Roedd y diwrnod o weithgareddau yn rhan o waith y Fagloriaeth Gymreig. Cafodd y disgyblion iau brynhawn byrlymus iawn o brofi danteithion, yn gacennau a ffynnon siocled, cyfleoedd i gystadlu mewn amrywiaeth o gemau megis taro'r pêl-droediwr a phêl fasged a chyfle i brynu crefftiau roedd rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 wedi eu creu eu hunain fel y cardiau Nadolig bendigedig oedd ar werth. Da iawn nhw am wneud gwaith arbennig o dda a llwyddo i gasglu'r arian sef £834.51 tuag at Tŷ Gobaith.

Codi arian at Gancr y Fron



Ar ddydd Llun Tachwedd y chweched ar hugain cafwyd diwrnod yn codi arian at ymchwil i gancr y fron. Yr oedd myfyrwyr y chweched dosbarth wedi gwneud cais i gael diwrnod o'r math yma i ddangos cefnogaeth i un o'u ffrindiau o flwyddyn 13 a gollodd ei fam yn ddiweddar i gancr y fron. Roeddent yn awyddus i'w gefnogi ef ac eraill o ddisgyblion yr ysgol sydd yn anffodus wedi dioddef colled yn eu teulu oherwydd cancr trwy gynnal y diwrnod arbennig hwn.

Gwisgodd nifer o staff yr ysgol a disgyblion y chweched sgarffiau, rubanau neu ddillad pinc i ddangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch. Ar amser egwyl cynhaliwyd bore coffi i'r staff a'r chweched ac roedd nifer fawr o gacennau bendigedig wedi eu paratoi i gyd-fynd â'r baned. Amser cinio cafwyd stodin yn gwerthu rhai o'r gacennau oedd ar ôl i ddisgyblion yr ysgol, llawer ohonynt yn gacennau bach pinc oedd wedi eu pobi gan rai o'r chweched dosbarth. Ar amser cinio hefyd cynhaliwyd gêm bêl-droed fawreddog rhwng staff a'r chweched dosbarth gyda'r tim ieuengaf yn ennill o 2 gôl i 1.

Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd ar y diwrnod er mwyn dangos cefnogaeth i'r achos arbennig yma.




Plant Mewn Angen



Eleni penderfynwyd casglu arian i Blant Mewn Angen yn ôl yr arfer ond gan ddefnyddio'r diwrnod fel modd o gael ychydig o hwyl rhwng y staff a'r disgyblion yn sgil hynny. Felly ar ddydd Gwener, Tachwedd 16eg creodd y staff dipyn o gynnwrf trwy wisgo gwisg ffansi ar y diwrnod. Welwyd erioed y fath beth yn Ysgol Brynrefail! Roedd gennym bennaeth newydd am y diwrnod gyda Professor Minerva McGonagall yn crwydro'r coridorau yn hytrach na Mrs Ellen Williams. Nid y hi oedd yr unig gymeriad o lyfrau Harry Potter a ddaeth i'r ysgol y diwrnod hwnnw gan i Hermione Granger ddod atom i ddysgu Bwyd a Maeth yn lle Mrs Anwen Powell. Penderfynodd yr adran Saesneg i gyd wisgo fel

crayons gwahanol liwiau a'r adran Ddyniaethau fel cymeriadau'r gân YMCA gan Village People – roedden nhw'n wych! Taniodd rhai o staff yr adran Wyddoniaeth ddiddordeb y disgyblion yn eu pwnc trwy wisgo fel gwahanol elfennau Cemegol sef Aliwminiwm, Aur, Potasiwm a Neon! Yn edrych yn union fel y cymeriad ei hun roedd Mr Huw Harvey fel Jac y Jwc a Mr Arwel Stephen yn barod am antur yn ei wisg Indiana Jones. Roedd y disgyblion wrth eu boddau a chasglwyd swm anrhydeddus o £463 tuag at yr achos arbennig yma. Diolch i'r holl staff a ddaeth yn eu gwisgoedd ffansi ac i bawb a gyfrannodd ar y diwrnod.

Harri Tulliver yn y Senedd



Llongyfarchiadau mawr i Harri Tulliver blwyddyn 13 sydd wedi ennill gwobr Arloesedd CBAC yn ddiweddar. Llwyddodd i ennill Gwobr Arloesedd drwy Gymru gyfan yn sgil ei waith caled ar brosiect arbennig pan ym mlwyddyn 12 yn dyfeisio offer i'w ddefnyddio mewn cegin gan bobl yn dioddef o gryd cymalau. Mynychodd seremoni arbennig

yn y Senedd yng Nghaerdydd ar Ragfyr y Sed. Fel y gwelwch o'r llun cyflwynwyd ei wobwr iddo gan Kirsty Williams y Gweinidog Addysg. Rydym fel ysgol yn ymfalchio yng nghamp Harri yn ogystal ag yn llwyddiant yr adran Dylunio a Thechnoleg.

LLANBERIS

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

Gwasanaethau Eglwys Sant Padarn

Rhagfyr 23, am 11 o'r gloch - Gwasanaeth o Naw Llith a Charol Croeso cynnes i bawb

Rhagfyr 24, am 2 o'r gloch - Gwasanaeth y Crud. Mae croeso i blant ac oedolion i ddod wedi gwisgo i fyny fel cymeriadau o stori'r Geni.

Rhagfyr 25, am 10 o'r gloch - Cymun Nadolig

Diolchiadau Dymuna Helen Parry, 15 Stryd Turner, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau, arian ac anrhegion ar ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch yn fawr i bawb.

Gwasanaethau Rhagfyr Capel Coch

23ain am 10yb: Gwasanaeth Nadolig y Plant

25ain am 10yb: Oedfa Gymun Nadolig

30ain am 10yb: Mr John Roberts

Gwasanaethau Ionawr

6ed am 10yb Parch. Huw Pritchard

13eg am 10yb a 5yh Y Gweinidog

20fed am 10yb Mr Richard Lloyd Jones

27ain am 10.30yb: Oedfa Deulu

Cyfraniadau 2018

Bydd Llyfrau Ariannol Capel Coch am 2018 yn cau ddydd Sul, Rhagfyr 30ain. Mi fydd unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi'r diwrnod hwnnw yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2019. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Cymdeithas Undebol Capel Coch

Ionawr yr 8fed: Oedfa Ddechrau'r Flwyddyn hefo'r Parchedig John Pritchard

Ionawr y 15fed: Noson hefo Rolant Wyn.

Cyngerdd Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeillion

Cynhelir Cyngerdd Nadolig y Côr yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23ain. Mae tocynnau ar werth, am £5, yn Siop Crib Coch, Llanberis, (neu gellir talu wrth y drws ar y noson).

Bydd yr elw yn mynd tuag at waith Cynllun Efe.

Cyfarchion y Tymor Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Heulwen Jones, Cyncoed, Llanberis.

Dymuna Eirian (Mali) Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i ffrindiau i gyd.



Côr ar daith

Am chwech y bore ar y pedwerydd ar hugain o Dachwedd cychwynnodd Côr Meibion Dyffryn Peris am Gaerdydd er mwyn canu yn Stadiwm y Principality cyn y gêm fawr rhwng Cymru a De Affrica.

Roedd hon yn fraint a hanner, cael canu ar y glaswellt cysegredig. Gyda ni roedd corau meibion Bro Goronwy o Fôn a Cwmndre a Kynffig Hill o'r de o dan arweiniad arbennig Haydn James.

Profiad bythgofiadwy; ac i goroni'r cwbl, buddugoliaeth i Gymru.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Adran y Flwyddyn



Mae Adran Sant Ioan, Llanberis wedi ennill Tlws Adran y Flwyddyn. Mae'r tlws yn cael ei gyflwyno i'r adran sydd wedi hybu a hyrwyddo gwaith Ambiwlans Sant Ioan gydol y flwyddyn. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Helfa ydi, a Helfa fydd Yr Helfa

Yn dilyn adroddiad yn rhifyn Tachwedd o'r "Eco", daeth perchennog Yr Helfa, Josh Feilden i gysylltiad yn pwysleisio nad oedd yr enw wedi ei newid, ond mai enw'r busnes yw Crashpad Lodges. Y cam-ddehongli a'r cam-ddealltwriaeth hwn fu'n gyfrifol am y dybiaeth fod yr enw gwreiddiol wedi ei ddisodli. Derbyniwyd y datganiad hwn ganddo:

"Since becoming the owner of Yr Helfa in 2014 my intention was to restore this historical Welsh farmhouse from which to run an accommodation business, named Crashpad Lodges. I am committed to honoring the important significance that Yr Helfa owes to Welsh history. Mid year 2018, I met and discussed with the local community council &



local historians to get as much information as possible to learn and preserve the heritage of Yr Helfa.

I believe I am merely a custodian of Yr Helfa and the ultimate aim



is that this historical building, now renovated and running sustainably will be accessible to locals and tourists for years to come."

Mae'r "Eco" yn falch o gywiro'r

cam-argraff, ac fel y gwelir yn y llun, mae'r enw "Yr Helfa" yn cael lle amlwg yn y ffermdy hynafol yng Nghwm Brwynog.

Tîm Achub Mynydd Llanberis yn dathlu 50 mlynedd o wasanaeth

Dydd Sadwrn 17 Tachwedd, daeth 160 o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau un o dimau achub mynydd prysuraf y Deyrnas Unedig at ei gilydd yng Ngwesty'r Fictoria Llanberis i ddathlu pen blwydd y Tîm yn 50 oed. Cafwyd cyfle i hel atgofion ac i rannu y cyfoeth o straeon am y galwadau i'r mynydd yn ystod y cyfnod o wasanaeth. 'Roedd yn gyfle i ddeall sut mae'r Tîm wedi datblygu dros y degawdau, a dwyn atgofion am gyn-ddigwyddiadau a'r cyfeillgarwch arbennig a grëwyd yn aml dan amgylchiadau anodd.

Mae llawer wedi newid ers i'r pwyllgor cyntaf gyfarfod yn ystod Mai 1968. Bryd hynny mynyddwyr lleol ac aelodau o staff y canolfannau mynydda lleol oedd cnewyllyn y tîm a chedwid yr ychydig offer oedd ganddynt yn y canolfannau hynny. Ar y cychwyn 'roeddynt yn ymateb i tua 30 galwad allan y flwyddyn. Heddiw mae gan y Tîm 60 o aelodau er mwyn ymateb i alwadau sy'n digwydd bron yn wythnosol. Yn ystod 2017 galwyd am ein gwasanaeth 220 o weithiau a hyd yma eleni mae'r nifer wedi cyrraedd yr un cyfanswm.

Ers 1973 cartrefwyd y Tîm yng ngarej Canolfan Wardeniaid y Parc Cenedlaethol yn Nant Peris diolch i gefnogaeth yr Uwch Warden, y diweddar John Ellis Roberts. Dros y degawdau 'roedd yr aelodau yn ymgasglu yn y garej a'r gorchwyl cyntaf oedd rhoelio y trelar allan o'r ffordd. 'Roedd gofod yn brin iawn yn y garej wrth fynd ati i gydgorio'r gwaith yn ogystal a storio ein pentwr cynyddol o offer. Pan adawodd Awdurdod y Parc yr adeilad yn 2013 neidiodd y Tîm ar y cyfle i dderbyn tenantiaeth o'r adeilad cyfan a'i droi yn adnodd mwy pwrpasol i waith achub ar gost o £25,000.

Bellach mae'r ganolfan yn cartrefu ystafell reoli addas i'r unfed ganrif ar hugain, ystafell i storio offer, cegin, toiled yn ogystal â neuadd ymgynnull. Mae'r gofod ychwanegol yn caniatáu mwy o le i drefnu a didoli timau i fynd allan i'r mynydd ac i gysuro cleifion. Yn ystod y pum mlynedd olaf prynwyd tri Land Rover pwrpasol ar gost o £150,000 er mwyn hwyluso cludo grwpiau i'r mynydd.

Dros y blyneddau mae aelodaeth, offer a thechnegau'r Tîm wedi newid ac esblygu. Serch hynny mae un nodwedd wedi aros dros y blyneddau a hynny yw ein hethos; fel grŵp o ddringwyr a mynyddwyr sy'n defnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth o'r mynyddoedd i helpu eraill pan fyddant fwyaf ei angen. O'r cychwyn cyntaf ymdrechwyd i addysgu'r cyhoedd ac nid beirniadu, agwedd sydd wedi ei ymgorffori yn wreiddiol yng nghynllun 'Mynydda Diogel' ac sydd bellach yn rhan o ddatblygiad "Mentro'n Gall Cymru". Dyma brosiect aml-asiantaethol cenedlaethol sy'n anelu i addysgu y rhai sy'n mentro i'r mynyddoedd er mwyn 'troi diwrnod da yn ddiwrnod gwell'.

Ers ein dyddiau cynnar fel criw o unigolion gwirfoddol mae Tîm Llanberis bellach a thimau eraill y Gogledd, yn wasanaeth argyfwng gwirfoddol 'lled-broffesiynol' pwysig drwy gydol y flwyddyn ac yn gydran hanfodol i'r gwasanaethau cymorth lleol. Golyga ein 200 a



throsodd o ddigwyddiadau y flwyddyn ein bod yn dod i gysylltiad cyson â'r Heddlu, Yr Ambiwylans, Y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gwylwyr y Glannau, Y Llu Awyr ac Ambiwylans Awyr Cymru. Priodol felly oedd croesawu dau Brif Gwnstabl i'n dathliad. 'Roedd yn bleser croesawu Gareth Pritchard oedd newydd ymddeol o'i swydd a chafwyd cyfle i ddiolch iddo am ei gefnogaeth hael i waith y timau achub ers nifer o flynyddoedd a dymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad. Hefyd croesawyd Carl Foulkes Pennaeth Newydd Heddlu'r Gogledd i'n plith gan ddymuno'r gorau iddo yn ei swydd newydd.

Mae'r Wyddfa yn fynydd unigryw mewn sawl ffordd ac yn denu ymwelwyr yn eu cannoedd o filoedd pob blwyddyn. "Mae'n wych gweld ymwelwyr yn mwynhau mynyddoedd Eryri," meddai Alun Allcock, Cadeirydd Tîm Llanberis. Ychwanegodd, "Mae'n ymddangos fod amcanion y Llywodraeth o wella lles economaidd a byw'n iach wedi bod yn llwyddiannus os yw'r nifer o ymwelwyr i'n mynyddoedd yn cael ei ystyried yn feincnod". "Ond, yn anochel, mae'r niferoedd o alwadau am gymorth wedi cynyddu dros y degawd olaf"

O edrych i'r dyfodol mae'r Tîm yn paratoi i ddelio gyda mwy o achosion yn flynyddol. Mae hyn yn rhywbeth sydd eisoes dan sylw: Dywedodd Alun Allcock, "Mae trafodaethau gyda gwleidyddion yng Nghaerdydd wedi dechrau gyda'r gobaith o gymorth ychwanegol nid yn unig trwy gynnal y timau gyda chynhaliadau o'u canolfannau, offer a chlydiant ond hefyd tuag at addysgu'r cyhoedd am yr angen i baratoi'n briodol cyn mentro i'r mynyddoedd, i barchu amgylchedd y mynyddoedd ac i fwynhau y profiad yn ddiogel."

"Aros mae'r mynyddoedd mawr, rhuo trostynt wna y gwynt", ond tybed beth fydd hanes y Tîm yn ystod yr hanner can mlynedd nesaf?

John Grisdale

Is Gadeirydd

Diwrnod Dathlu Ysgol Gymuned Cwm y Glo



Roedd croeso cynnes i bawb yn yr ysgol yn ddiweddar ar achlysur dathlu'r ysgol cyn iddi gau yn swyddogol. Braf oedd gweld y neuadd yn orlawn wrth i hen ffrindiau ddod ynghyd o bell ac agos. Daeth llawer draw yn dal hen luniau yn eu dwylo, yn barod i'w rhannu a'u trafod. Roedd yn gyfle arbennig i unrhyw un gyda chysylltiad â'r ysgol ddod at ei gilydd i drafod eu atgofion, hel straeon ac astudio lluniau a dogfennau di-ri roedd Gareth Roberts wedi prysur baratoi. Ar ganiad hen gloch yr ysgol, cafwyd cyflwyniadau hwyliog gan Gareth ar hanes y pentref a'r ysgol ac o ganlyniad mae'r dathliad wedi sicrhau ei fod yn gallu ychwanegu i'w gasgliad o ddeunyddiau am bentref Cwm y Glo a'r ysgol. Diolch o galon i bawb fentrodd draw a sicrhau bod y diwrnod wedi bod yn brofiad positif, llwyddiannus wrth i gyfnod hanesyddol ddod i ben.

Parhad CWMY GLO



Mae Mrs Iris Rowlands, Glanrafon yn ymddeol y mis hwn o'i swydd fel gohebydd pentref. Bu'n gyfrifol am gasglu'r newyddion am nifer helaeth o flynyddoedd, a mawr yw ein diolch iddi am gyflawni'r gwaith hwnnw. Llawer o ddiolch, Iris. Os oes unrhyw un o'r pentref yn fodlon gwneud y gwaith, cysylltwch ag unrhyw un o swyddogion y papur.

Diolch Dymunwn ddiolch o galon i Gareth Roberts o Gynllun Cerdded a Darganfod am gyflwyno Diwrnod Hanes Ysgol a Phentref Cwm-y-glo yn yr ysgol ddydd Iau, Rhagfyr 6ed. Bu'r ysgol yn orlawn o un o'r gloch y prynhawn hyd hanner awr wedi wyth yr hwyr. Diolch i Mrs Nia Oliver, pennaeth yr ysgol, am y croeso ac i'r rhai fu'n gofalu am banded i bawb. Tybed a fydd yn bosibl cael diwrnod arall o'r fath yn y gwanwyn er mwyn i'r rhai na allodd ddod gael cyfle i weld yr gwaith ardderchog. Diolch am ddiwrnod i'w drysori a'i gofio.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref i Carl, Hyfrydle, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cyfarchion y Tymor Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref a chofiw'n yn ystod yr Ŵyl am y rhai sydd mewn Cartrefi Preswyl a'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi a hefyd y bobl sy'n gofalu amdanynt.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Santes Fair bnawn Mawrth, 20 Tachwedd. Dechreuwyd gyda gweddi Undeb y Mamau a chafwyd gwasanaeth byr yng ngofal Lesley. Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Carys, Hilda ac Iris. Yr oedd yr eglwys yn edrych yn hardd iawn wedi ei haddurno gyda'r pabis. Bydd taliadau aelodaeth yn codi i £19 ond i aros am y tair blynedd nesaf.

Mwynhaodd pawb de Nadoligaidd, Marjorie a Dorothy oedd y gwesteion a diolchwyd iddynt gan Auriel. Gwasanaeth carolau fydd ar 18 Rhagfyr. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

Menter Fachwen a Lot 67



Agorwyd siop 'hen bethau' gan Menter Fachwen yng Nghwm y Glo yn gynharach eleni, ac mae amryw o drigolion y fro ac o du hwnt wrth eu boddau yn galw draw o dro i dro. Mae'r siop yn llawn gwrthrychau, llyfrau, dilladau ac ati sydd yn ennyn hen atgofion.

Yn ddiweddar daeth nain un o fuddiolwyr Menter Fachwen a hen wrthrychau i mewn i'r elusen eu didoli, ac i weld os oedd unrhywbeth o werth. Ymysg y gwrthrychau ddaeth Pat a Ken Jones (Cae Coch, Brynrefail) i mewn roedd wy addurniadol, diddorol dros ben. Oddi tanodd r'oedd llofnod 'R'Lalique'.

Wedi gwaith ymchwil, cafodd Menter syrpreis o ddeall y gallai'r wy fod o werth o leiaf £250-£300. Bu Menter mewn cysylltiad â Pat a Ken yn syth bin, a bu'r ddau ohonynt yn garedig dros ben a chynnig yr wy i Menter Fachwen ei werthu.

Felly, cafodd yr wy ei ddangos i ddau brisiwr proffiesynol a chytunodd y ddau ei fod yn bosib bod yr wy yn werth tipyn mwy na £300. Awgrymwyd i Menter ei roi mewn ocsiwn gan Morgan Evans. Cytunodd yr arwerthwyr i beidio codi comisiwn gan bod Menter yn elusen sydd yn gwneud gwaith mor dda. Aeth criw o Fenter i Ocsiwn ar 26ain o Hydref i weld be ddigwyddai i 'Lot Rhif 67' -yr wy 'Lalique'. Syrpreis oedd gweld cynigion gan dau di-enw ar y ffôn yn ceisio yn erbyn ei gilydd am yr wy. Daeth y cynnig olaf i mewn... ..£1700!!! Roedd pawb wedi cynhyrfu'n llwyr.

Gyda bendith Pat a Ken mae'r grŵp wedi penderfynu eu bod am wario'r arian yn ddoeth ac am gynllunio trip preswyl i fuddiolwyr Menter Fachwen sydd ag anabledau dysgu yn ystod 2019.

Diolch Pat a Ken!!!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

GLYNTWROG LLANRUG
671191

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng



NGHARTREF

Joelas

Ffordd yr Orsaf LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA

CAEATHRO
Ffôn: 673096

Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr M.O.T. * Trwsio Ceir




LONDIS

Ar agor 7 a.m. - 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

ATEBION Y CWIS CHWARAEON

1. Ffug enw ennillwyd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol
2. Pontypwl
3. Wayne Hennessy, Owain
4. Fôn Williams, Danny Ward.
5. Brown
6. Exeter
7. Guinness
8. Georgia Hall
9. Real Madrid
10. Iwerddon (Unedig ar y pryd)
11. Tîmau tenis Prydain/Ewrop
12. Tanni Gray-Thompson
13. Durham
14. Gerwyn Price
15. Dubai
16. Tîm dros 50 oed.
17. Turin (Juventus)
18. Cambrian a Clydach.
19. Dymbych
20. Soldiers Field, Chicago a
- Stadiwm Aviva, Dilyn.

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd £30: Mari Rowlands, Tan-y-marian; £20: Jac Jones, Bod Idris; £10: Lesley Williams, 4 Tŷ Hen.

Sefydliad y Merched Ar y 1af o Dachwedd cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol. Croesawodd Catherine, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod ynghyd â Mrs Annie Williams, aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'n harwain drwy'r gwaith. Yn dilyn Adroddiadau gan y Llywydd, Ysgrifennydd a'r Trysorydd ail etholwyd y swyddogion a phob aelod oedd yn gyfrifol am y dyletswyddau eraill. Diolchodd Catherine i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn yma gan obeithio am eu help eto y tymor nesaf. Diolchodd hefyd i Mrs Williams am ei gwasanaeth yn ystod y cyfarfod. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Iris, gan Cherry.

Ar Ragfyr y 6ed aeth yr aelodau i Fron Menai, Caernarfon, i fwynhau cinio Nadolig hyfryd iawn. Ar ôl y cinio tynnodd yr ysgrifenyddes, Pat, ein sylw at ychydig o faterion oedd i'w trafod. Cyfeiriodd y Llywydd at farwolaeth dwy o aelodau ffyddlon o'r Sefydliad oedd wedi marw yn ystod y pythefnos diwethaf, sef Mrs Hilda M. Williams, a Mrs Lowri Owen. Mae colled fawr i'r Sefydliad hebddynt.

Clwb Bowlio Ar Dachwedd 16eg aeth aelodau o'r clwb i'r Clwb Golff yng Nghaernarfon am bryd o fwyd ac i wobrwyo enillwyr cystadlaethau mewnol y clwb. Y canlyniadau oedd:

Cwpan i Ferched (wedi ei rhoi gan Pant Waun Garej): 1. Pearl Williams; 2. Catherine Jones.

Cwpan i Ddyblau (wedi ei rhoi gan Garej Gwalia, Caeathro): 1. Emyr Evans a Mal Burns; 2. Catherine a Joe Large.

Cwpan y Llywydd: 1. Emyr Evans; 2. Mal.

Tarian er cof am Mr T.A. Thomas: 1. Emyr; 2. Joe.

Diolchodd Mal (y Llywydd) i'r holl aelodau am eu cefnogaeth yn cynnal y cystadlaethau a chyfeiriodd hefyd at y golled i'r clwb yn ystod y flwyddyn ym marwolaeth Siôn Rhys Jones a Nancy Buckley, y ddau wedi bod yn selog iawn i'r clwb am

flynyddoedd.

Ar y 6ed o Ragfyr bu farw aelod ffyddlon arall o'r clwb, sef Mrs Hilda M. Williams. Mae colli'r tri aelod yma mewn blwyddyn wedi iddynt fod yn aelodau ffyddlon iawn yn golled fawr i'r clwb.

Merched y Wawr Cynhaliwyd ein cyfarfod nos Iau, Tachwedd 22, ym Mwyty Clwb Golff Caernarfon, ble cawsom bryd o fwyd hynod o flasus. Anita ddiolchodd i Gwen Eleri a staff y gegin am eu croeso cynnes, y pryd blasus a baratowyd a'r gweini andros o dda ar gyfer pob un ohonom.

Llongyfarchodd Anita, Pat a Raymond ar enedigaeth Ivy, gor-wyres fach iddynt ac hefyd Heulwen ac Alffi ar ddod yn nain a thaid i wŷr bach newydd, Jac. Hefyd diolchodd i'r ddwy ohonynt am eu cymorth iddi gyda'r paratodau. Anfonodd gofion at Tomos Hughie, gŵr Iona, sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty ym Mangor.

Atgoffodd ni am y digwyddiadau yng ngweithgareddau y Mudiad, y dyddiadau derbyn y gwahanol gystadlaethau a'r cwrs Crefft y Gogledd a gynhelir yn Glastir, Llanrwst ar Ionawr 19, 1019. Darllenodd 'Gyfarchion y Nadolig' a dderbyniwyd gan Meirwen, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr yn dymuno Nadolig Llawen i bawb ac i ni gofio am y rhai llai ffodus. Cyn troi am adref cafodd pob un ohonom dynnu anrheg o sach y Siôn Corn cudd. Diolch i yrrwrybws am ein cludo i'r Clwb Golff ac adre yn ôl yn ddiogel. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan ar 24 o Ionawr 2019 pryd y bydd Gareth Roberts gyda ni yn 'Mapio Hanes Lleol Waunfawr' a bydd Janet a Shirley yn paratoi paned. Cyfarfod am 7.30 o'r gloch a chroeso i aelodau newydd ymuno.

Babanod Bach Newydd Ganwyd merch fach, Alys Elen, i Wena a Malcolm, Groeslon Penygroes, chwaer fach i Tomos, wyres i Mandy a Keith, Ael y Bryn a gor-wyres i Ilid a Ronnie, Stad Bro Waun.

Bachgen bach a anwyd i Doctor Pritchard a'i wraig, Elen. Mae Elis yn frawd bach i Noa a Gruff. Daeth Helen a Tony Brown, Stad Bryn Golau, yn nain a thaid

i Robin, wŷr bach iddynt. Mab i Shaun, eu mab a'i bartner, Carly.

Llongyfarchiadau i'r tri theulu a chroeso i'r rhai bach.

Cyfarfod Carolau Noswyl Nadolig Cofiwch am ein cyfarfod Carolau yng Nghapel y Waun nos Lun, Rhagfyr 24 am 4.30. Bydd casgliad at achos da. dewch yn llu, mae croeso cynnes i bawb.

Dymuniadau Da A dyma ni, Gŵyl y Nadolig wrth ein drws unwaith eto a blwyddyn newydd i ddilyn. Anfonwn ein cofion cynnes at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartref ac mewn cartrefi Preswyl a diolch i'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Rwy'n siŵr y daw Siôn Corn heibio i bob plentyn, maent wedi bod yn brysur iawn yn dysgu geiriau a chanu Carolau a'u rhannau llafar ar gyfer Sioe Nadolig yr ysgol a'r cyfarfodydd eraill y maent wedi cymryd rhan ynddynt yn y pentref. Da iawn chi, a diolch i'r rhai fu'n trefnu'r gwaith ac yn eich hyfforddi.

Mae teuluoedd newydd wedi ymgartrefu yn y pentref. Dymunwn bob hapusrwydd i chi yn ein plith.

Dymuniadau gorau am Nadolig dedwydd a blwyddyn lawn o bethau da i bawb yn 2019.

Cyfarchion y Tymor Dymuna Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i John Gwynedd, Nant, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Rhagfyr. Pob dymuniad da i ti, John, oddi wrth y teulu a dy ffrindiau i gyd.

Ar y Llwyfan Nos Sadwrn, Rhagfyr y cyntaf, cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd Ysgol Brynrefail wedi ei drefnu gan Gwyn ac Annette Bryn Parri er mwyn diolch i staff Cartref yr Henoed Penisarwaun. Wedi gair o groeso gan Gwyn, yr eitem gyntaf ar y llwyfan oedd parti gweithwyr yr Antur yn canu ac wedyn Fflur a Gareth yn canu deuawd 'Mae na rywbeth amdanat ti'. Da iawn gôr a deuawd a diolch i Annette, sy'n dod i'r Antur i gynnal orig fach o gerddoriaeth a chân gyda'r gweithwyr.

Eisteddfod Ysgol Uwchradd Brynrefail Da iawn i'r disgyblion fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod a llongyfarchiadau i'r rhai ddaeth yn fuddugol.

Ar y Teledu Un o hoff raglenni teledu plant Cymru yw rhaglen yr efeilliaid bach drygionus 'Deian a Loli' a chyn bo hir bydd cyfres newydd gyda chast newydd. Deian y gyfres newydd yw Gwern Jones o Lanrug. Bydd Nain Brenda, Tŷ Ni, wrth ei bodd yn gwylio!

Enillydd Bafta Llongyfarchiadau i John Markham ar ennill Gwobr Bafta Cymru 2018 am ei waith ar y rhaglen Band Cymru ar S4C.

Fe dderbyniodd y wobwr mewn seremoni yng Nghaerdydd ym mis Hydref eleni. Mae John yn byw yn y Waunfawr efo'i wraig a dau o blant ac wedi treulio ei fywyd fel gweithiwr llawrydd yn arbenigo mewn sain teledu.

Adref o'r Ysbyty Wedi iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty croesawn Thomos Hughie Williams, Llwydiarth, a Treflyn Thomas, Treforfan, adref. Anfonwn gofion cynnes atoch. Hefyd anfonwn gofion cynnes at Ann Edwards, Melin-y-wig, a Haydn Jones, Rhandir Mwyn. Mae'r ddau wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cydymdeimlo Yng ngwasanaeth boreol y Sul olaf o fis Tachwedd yng Nghapel y Waun anfonodd Dylan Rhys gydymdeimlad dwysaf y cynulleidfia at deulu Mrs Hilda Williams yn eu profedigaeth o'i cholli. Bu farw yn dawel yng Nghartref Nyrsio Ceris Newydd, Bangor, yn 94 mlwydd oed. Roedd yn fam annwyl i Nerys a Dani a Jane a Doctor Allan Swift. Roedd Mrs Williams yn aelod ffyddlon o'r capel.

Hefyd Yn ei chartref yma yn y Waun, yn dawel yng nghwmni ei theulu, yn 97 mlwydd oed bu farw Mrs Laura Dunn. Cydymdeimlwn â Marianne a Graham, ei merch a'i mab ac â Andy a Victoria, ei mab a'i merch yng nghyfraith ac â'i wyrion Charlie, James a Peter a'i gor-wyres Alexandra yn eu colled drist a'u hiraeth. Roedd Mrs Dunn yn ffrind ffyddlon yn y capel.

Ysgol Waunfawr

Canu rownd y goeden



Diolch hefyd i bawb a ddaeth i'r noson goleuo coeden dolig y pentref. Roedd hi'n braf gweld cymaint yn bresennol.

Noson Miri Sion Corn yn yr Antur



Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant yn canu carolau yn noson Miri Sion Corn yn yr Antur Tachwedd y 30ain. Pawb wrth eu boddau yn gweld Santa yn ei groto. Diolch i Tracey / Diane / Dewi a'r gweithwyr i gyd am drefnu.

Cinio Dolig



Diolch i Anti Sharon, Anti Syl, Anti Emma ac Anti Susan am ginio Dolig gwerth chweil.

Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol

Rydym ni ac Ysgol Bontnewydd wedi llwyddo i dderbyn Grant Ysgolion Creadigol Arweiniol eto eleni er mwyn hybu sgiliau llafar Cymraeg drwy'r cysyniad o amser gyda blwyddyn 3 a 4. Bydd Jo Steel yn yr ysgol bob dydd Iau hyd y Nadolig yn adeiladu Ty Celtaidd gyda'r disgyblion.

Ymweld â Chastell Penrhyn

Bu blwyddyn 5 a 6 yn gwneud addurniadau Nadolig yng Nghastell Penrhyn ddydd Gwener Rhagfyr y 7fed. Cawsant bnawn gwerth chweil.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Roedd yn braf gweld y plant i gyd wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ddydd Gwener Tachwedd yr 16eg. Yn ystod y dydd cafwyd llawer o weithgareddau i ymwneud â'r diwrnod - peintio gwynebau, addurno bisgedi Pudsey, gweithgareddau dosbarth yn seiliedig ar y diwrnod, gwerthwyd breichledi a chlustiau Pudsey Casglwyd £385.00 tuag at yr achos. Diolch i bawb.

Cyngerdd Nadolig Band Ieuencid Arfon

Bu'n rhaid gohirio Cyngerdd Band Ieuencid Arfon oherwydd difrod i'r to yn Theatr Seilo. Cynhelir y Cyngerdd Nos Fercher Ionawr yr 16eg am 6 o'r gloch.

ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

Parhad WAUNFAWR

Clare Belamy, Pencaerweun, Lôn Cefn Du

Bu Clare, oedd yn ei wythdegau, farw yng Nghaerdydd yng nghwmni ei theulu ac fe'i claddwyd yno mewn seremoni syml ddydd Llun, Tachwedd 12fed. Yr oedd wedi symud o 'gartref' yn Bontnewydd i fyw i 'gartref' yng Nghaerdydd fel ei bod yn agos at ei merch a'i wyrion.

Yn wreiddiol o Fanceinion, symudodd Clare a'i gŵr, y diweddar Arthur, i fyw 'bywyd tyddyn' - yn wreiddiol gan gadw gafr neu ddwy - yn Waunfawr. Yr oedd Clare yn gymwynasgar iawn, yn arbennig gyda theuluoedd Tan y Capel a Cae'r Weun, gan ddod yn ffrind arbennig i'r diweddar Sharon Pritchard. Mae Clare yn gadael tri o blant: Sion sydd yn brifathro ysgol gynradd unigryw yn Nyfnaint, ei efaill Dave, seicolegydd, sydd yn byw ym Mhencaerweun, gofalwraig plant sy'n byw yng Nghaerdydd (bu yr hynaf, Neil, farw dair blynedd yn ôl). Mae dau o wyrion yn Nyfnaint. Yng Nghaerdydd mae pump o wyrion sef plant Jane (pedair merch a mab) a fagwyd yn Cynant, Waunfawr a Dolafon, Llanrug. Rhaid peidio anghofio y gor-ŵyr tair oed sy'n byw yng Nghwm glofaol Ogwr. Ni ddysgodd Clare Gymraeg ond mae ei wyrion a fagwyd yn Dolafon/Ysgol Brynrefail yn siarad Cymraeg.

* * *

Yr oedd Clare yn gymdogaes dda iawn i ni ac yn arbennig pan oedd Sharon fy ngwraig yn wael - gyda hiwmor 'dropouts peniog' gan y ddwy - er mor wahanol eu diwyg!



Goleuo'r goeden

Cawsom noson brysur i ddathlu'r Nadolig yn y Waun, Nos Iau Rhagfyr 6ed, pryd y goleuodd Trevor Beech, un o gymwynaswyr y pentref, y goeden Nadolig. Yn anffodus doedd Roy ddim yn gallu bod yn bresennol. I ddilyn cafwyd adloniant gan rai o blant ac oedolion lleol a chyd ganu ychydig o garolau. I goroni'r dathlu ymddangosodd Sion Corn am sgwrs efo'r plantos. Diolch i bawb a drefnodd y noson ac a gymerodd ran yn y noson lwyddiannus hon.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Ionawr a Chwefror yn cyfarfod a 10.00 y bore

Ionawr 6: Gwasanaeth Dechrau'r flwyddyn

13: Mr John Roberts

20: Parch Hugh Pritchard

27: Parch Angharad Roberts

Chwefror 3: Mr John Robinson

10: Parch Glenys Jones

17: Mr Arawn Glyn

24: Ms Delyth Oswy-Shaw

Bydd cyfarfodydd yr Ysgol Sul yn cychwyn fore Sul, Ionawr 13 am 10.00 o'r gloch y bore hyd at 11.00 yn y capel. Mi fyddai yn braf gweld mwy o blant yn ymuno.



Gŵyl Cymryd Rhan

**Dydd Sul
13 Ionawr
Theatr Venue Cymru**

10.00	Sioe Cyw
11.30	Sioe Cyw
2.15	Sioe Cyw
3.40	Canu a Dawnsio gyda Cyw Llwyfan yr Arena

Tocynnau ar gael drwy ffonio Venue Cymru 01492 872000 neu ewch i www.venuecymru.co.uk

**GWEITHDAI
ROWND A ROWND**

**11.00 – 12.30 A 1.30 – 3.00.
DYDD SUL 13.01.19
YSTAFELL CRAFTANT**

Cyfle i gyfarfod sgriptiwr, cyfarwyddwr a rhai o actorion y gyfres. Am Ddim



Ar ben arall i'r lein

Gyda'r tymor yn dod i ben a segurddod wedi dod i'r genweiri, dydi hyn ddim yn golygu fy mod yn rhoi heibio pethau pysgodfaol, o na ddim o bell ffordd! Yn ogystal â dal i fyny â gwaith gweinyddol y Gymdeithas mae fy meddwl yn dal i grwydro'r glannau, ond yn gorfforol mi fydda i yn gwneud ambell siwrnai i daro llygaid dros rhyw afon neu lyn arbennig i edrych be ydi'r siawns o gael rhyw ddiwrnod neu ddau o sgota yn ystod y flwyddyn i ddod. Wel mae fy llygaid wedi bod ers peth amser am gyfle i gael rhyw ddiwrnod neu ddau i rhoi tro am y torgoch yn ardal y llynnoedd.

Yn ôl y cylchgronau pysgota mae torgoch ardal y llynnoedd – fel yr oedd hi yma ychydig iawn o amser yn ôl mewn cryn drafferth oherwydd llygredd. Ar Lyn Windermere maent yn wynebu pob math o drafferthion â'r pysgota, a oedd unwaith mor ffrwythlon, gyda physgotwyr yn gwneud eu bywoliaeth o'r grefft wedi dirywio cymaint fel nad oes ond rhyw gryn hanner dwsin o bysgotwyr yn trio eu lwc nawr ac yn y man. Ond tra bod Windermere ar ei sodlau 'roedd tipyn o gannmol bod Ullswater yn frith o dorgoch a gwyniaid. Ac felly roedd hi ar ddechrau Tachwedd, felly ffrwd â ni am rhyw ychydig ddyddiau ar drywydd tipyn o 'sgota yno at yr haf. 'Roeddem yn aros ar lan y llyn ym mhentref Glenridding, hen enw'r lle oedd Glenrhedyn, yn arddangos yr hen gysylltiad â'r hen iaith Frythoneg. Siomedig iawn oedd fy ymdrechion i gael unrhyw wybodaeth am y pysgota, neb yn gwybod dim yn y gwesty na chwaith ger y llyn. Drwy geisio denu sgwrs yr ymateb oedd, 'Ymwelwr ydw i hefyd.' Efallai mai fel hyn y bydd hi yma ymhen amser!

Yng ngwaelod gardd y gwesty ac yn ymestyn i'r llyn roedd tair glanfa, ac ar ben draw un oedd plac gyda'r geiriau arno 'Môr o Gariad'. Wrth gwrs, doedd neb yn gwybod sut na pham mae yno. Oes yna rhywun yn gwybod tybed?

Oes na rywun heblaw fi yn amheus o'r holl bwyslais sy'n cael ei roi i gael y cyhoedd, yn enwedig ein pobl ieuanc, i ymafael mewn ychydig o ymarfer corff ac i wneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored. Be sy'n well at hyn na rhyw ychydig o amser yn cerdded glannau'n hafonydd a'n llynnoedd, yn enwedig gyda'r enwair, a chael y cyfle i roi rhywbeth yn y badell at swper. 'Rydym fel Cymdeithas yn ceisio ein gorau i wireddu tipyn ar hyn ond, yn anffodus, mae trefniadau o'r fath yn costio – llogi ystafelloedd, prynu'r taclau sy'n angenrheidiol i gynnal gwersi ac ati. Rai blynyddoedd yn ôl, rhaid dweud fod cymorth hael i'w gael gan rai fel Cyngor Gwynedd. Erbyn heddiw mae pob ffynhonnell wedi rhedeg yn sych, yr unig ffrwd sy'n dal i redeg yw'r un sy'n gofalu am benodi swyddogion i bregethu fod yn rhaid gwneud mwy. Mwy o gymorth i ni, y rhai sy'n ceisio gwireddu penawdau eu pregethu ac yn sicr fe fuasai'n bosib gweithredu fel yr awgrymir. Ar diwedd y flwyddyn, rwy'n falch o ddweud fod 26 mlynedd o ymdrech i lanhau dyfroedd Padarn yn dangos ffrwyth, a thrwy hyn mae byd pysgodfaol y llyn a'r afonydd Rhythallt a'r Seiont yn dangos tro am y gwell. Mae'r pysgota eleni wedi dangos cynnydd, llawer gwell na'r disgwyl, yn enwedig fy ffefryn, y torgoch. Ar ddydd Mercher, 28 Tachwedd, fe stociwyd tua 3,000 o dorgoch bach i'r llyn o'r lanfa yn y Gilfach Ddu, diolchi swyddogion Cyfoeth

Naturiol Cymru am ei gwaith arbennig ar y cynllun adfywio. Yr unig feirniadaeth sydd gennyf am hyn i gyd yw bod deori y grawn a'r magu wedi ei wneud yn neorfa Cynrig, Aberhonddu. Mae ein deorfa yn Crawia yn cael ei diystyru'n llwyr fel rhan o'r cynllun. Penderfyniad cywilyddus rhai o reolwyr CNC sy'n gyfrifol am hyn, ond mwy siomedig byth yw bod neb o'n cynrychiolwyr lleol yn gweld y bydd fuasai'n dod i'r ardal drwy wneud y gwaith magu yma yng nghanol ein bro.

2018 fydd blwyddyn olaf y cynllun stocio – felly bydd y rhwydi casglu wedi eu gosod yn Afon y Bala o bosib dros bythefnos gyntaf Rhagfyr. Fel arall mae'r claddu eleni hyd yn hyn wedi bod yn foddhaol dros ben, gyda'r gwyniadau mawr wedi dechrau arni yn gynnar, sef yn ystod y drydedd wythnos o Hydref. Bydd yr eog wrthi o ddifrif dros y cyfnod o wythnos cyn y Nadolig at wythnos gyntaf Ionawr. Pontydd Penllyn yw un o'r llecynnau gorau i weld y sioe anhygoel yma.

Does dim i'w gymharu â'r Nadolig, heb inni oll beidio ac anghofio gwir ystyr yr Wyl, ond does dim byd mor dderbyniol â derbyn rhyw anrheg mwyaf annisgwyl. Wel dyma i chwi anrheg Nadolig unigryw i bysgotwr yn y teulu, neu i unrhyw un sydd eisiau cipolwg ar sut oedd pethau o gwmpas y lle ma yn y 1950'au. Rwyf droeon, dros y blynyddoedd, wedi cyfeirio at lyfr diddorol sef 'A Snowdon Stream' gan W.H. Canaway. Pwy sy'n cofio Bill Canaway? Roedd yn byw am flynyddoedd yn hen dŷ Boyer, sef hen gartref gweinidogion Capel Ebenezer, Deiniolen. Roedd yn enwog fel awdur y llyfr a'r ffilm enwog gan Disney 'Sammy Goes South'. Ond i mi 'A Snowdon Stream' yw'r clasur, gan mai pysgota'r Afon Gwyrfa i rhai cymeriadau oedd ar ei glannau sydd yn cael ei sylw. Mae Medlar Press newydd gyhoeddi ail argraffiad, felly dyma un i'r hosan Nadolig. Mae ar gael drwy Palas Print, Caernarfon neu drwy safle we'r argraffwyr.

Nadolig Llawen o Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD 2018:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 14eg o Dachwedd, 2018 am

7.00y.h.

PRESENNOL

ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp.

Ward Peris: Iola Owen,

Hefydynbresennol: DeiTomas (Clerc). Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Trystan Thomas

CADARNHAU COFNODION: Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 10fed o Hydref, 2018 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Toiledau:

Chafwyd dim gair pellach oddi wrth Gyngor Gwynedd (CG) am y toiledau. Ond y mae holiadur gan y Cyngor yn holi barn yn gyffredinol am doiledau cyhoeddus. Daw hyn ar ôl i Lywodraeth Cymru benderfynnu fod dyletswydd ar gynghorau i sicrhau fod toiledau cyhoeddus ar gael, mewn cyflwr da ac yn addas i bobl ac anabledau. Mynegwyd fod hynny yn ddiddorol o gofio fod CG hyd yma wedi methu cydweithio a'r Cyngor hwn.

2. Llinellau Melyn, Llanberis:

Cafwyd cadarnhad gan CG fod

bwriad i ymestyn y llinellau o Westy Fictoria i Bentre Castell, nodwyd fod angen gwneud yn siwr fod llinellau ychwanegol rhwng Capel Jerusalem a mynedfâr castell. Addawodd y Clerc drafod y mater a'r adran berthnasol yn CG.

3. Sul y Cofio:

Aeth y trefniadau yn hwylus. Diolchwyd i bawb fu ynghlwm a'r trefnu ac a'r arddangosfa yn Y Ganolfan i nodi 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Mawr. Penderfynwyd anfon gair o ddiolch i Harvey Lloyd a Chyfeillion Eglwys St Julietta, Capel Curig am roi benthg eu harddangosfa a baratowyd ganddynt ar gyfer 2014, ganrif ers dechrau'r Rhyfel. Penderfynwyd rhoi rhodd fechan (£50) yn gydnabyddiaeth i'r Cyfeillion tuag at eu gwaith yng Nghapel Curig.

Roedd glanhau ac ail baentio'r enwau ar y Gofeb wedi ei ganmol gan lawer, ond daeth rhybudd fod cyflwr wyneb carreg y Gofeb yn hindreulio a'r llythrennau yn mynd yn anos i'w paentio. Penderfynwyd holi arbenigwr i weld a oedd y Gofeb yn ddiogel. Ar ôl holi cafwyd ar ddeall nad oedd CG yn foddol iawn gweld cau y ffordd adeg y gwasanaeth. Eleni nid oedd neb yn teimlo i'r ychydig gerbydau a basiodd darfu ar y gwasanaeth.

4. Y Nadolig:

Adroddwyd i'r Clerc archebu dwy goeden Nadolig ar gyfer Llanberis a Nantperis. Byddant yn cyrraedd ar yr 28ain o'r mis a choeden Llanberis i'w gosod a'i goleuo ar y Sadwrn canlynol. Yn y cyfamser roedd DO

y trydanwr wedi bod yn sicrhau fod goleuadau'r ddau bentref yn ddiogel ac yn gweithio ac mae diolch hefyd yn ddyledus i Emlyn Baylis am greu bocs newydd i'r cyflenwad trydan yn Llanberis. Er gwaetha'r gwaith ar y bont a chau'r Stryd Fawr mae digon o le i'r goeden yn ei llecyn arferol yng ngardd yr 'Heights'.

5 Yr Heddlu:

Dywedodd y Clerc iddo roi gwahoddiad i'r heddwes newydd i ddod i gyfafod nesaf y Cyngor.

6. Sedd Wag:

Yn dilyn ymddiswyddiad Gwenda Roberts a adawodd yr ardal bydd CG yn rhoi hysbyseb yr wythnos hon fod sedd wag yn Ward Peris. Rhydd hynny gyfle i ofyn am etholiad neu os na fydd galw am hynny bydd hysbyseb pellach yn y flwyddyn newydd i ofyn am enwau i lenwi'r sedd.

MATERION ERAILL:

1. Goleuo'r Eglwys:

Cytunwyd mewn egwyddor i gyfrannu tuag at oleuo'r eglwys yn Llanberis yn ystod cyfnod y Nadolig, nodwyd uchafswm ariannol hyd at draean o'r gost. Gwneir cynnig tebyg i Eglwys Nantperis.

GOHEBIAETH:

1. CG - Cau Ffordd:

Rhybudd y bydd rhannau o Lôn yr Eglwys ar gau ar yr 22ain o Dachwedd, 2018.

2. Welsh Hearts / Apêl Defibrillator:

Cais am wybodaeth am y peiriannau achub bywyd yma. Mae un yn yr Orsaf Dàn. [Siomedig fod y llythyr yn uniaith Saesneg a'r Clerc wedi nodi hynny wrth y gymdeithas, ond heb gael ateb]

3. Adroddiad:

Adroddiad Blynyddol Grŵp Cynefin.

4. National Grid: (Llinell drydan a pheilonau newydd o'r Wylfa, Ynys Môn i Orsaf Drydan Pentir)

Hysbyseb fod y cwmni wedi cyflwyno

cais ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol am Orchymyn Caniatâd Datblygu ('DCO') Cais: EN020015. Manylion i'w gweld yn Siop Gwynedd, Caernarfon.

5. Llinellau Melyn, Glanrafon Llanberis:

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais i osod llinellau melyn ym mhen pella'r ffordd erf od amheuaeth ynglyn a'r amseru oherwydd y gwaith ar y bont.

6. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn:

Nodyn fod diwygiad i'r adroddiad 'Tai Marchnad Lleol' yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllawiau Cynllunio Atodol.

7. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru:

Arolwg o drefniadau etholiadol sir Gwynedd.

8. CG Adran Amgylchedd:

Cais i newid oriau trwyddedu Penceunant Isaf, Llanberis - dim sylw. CYNLLUNIO:

• C18/0914/15/LL - Estyniad deulawr ynghyd a newidiadau eraill - Bryn Mâl, Fron Goch, Llanberis. LL55 4LE - dim sylw.

• C18/0915/15/R3 - Creu mannau parcio ynghyd a storfa newydd - Plas Pengwaith, Llanberis. LL55 4TP - dim sylw.

• C18/0917/15/HY - Cadw murlun - Gwesty Padarn Lake, Llanberis. LL55 4SU - dim sylw.

• C18/0918/15/LL - Addasu-newid ffenestr yn ddrws tân, creu dwy ffenestr yn y to a chreu cornel smocio dan do -

Gwesty Padarn Lake, Llanberis. LL55 4SU - dim sylw.

• C18/1016/15/LL - Dymchwel yr adeiladwaith presennol a chodi estyniad un llawr yn eu lle - 83 Maes Padarn, Llanberis. LL55 4TD - dim sylw.

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth Dylan A'r Staff
SHOP CHIPS TEGFAN
Y SGWÂR LLANRUG
(01286) 671211

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboest- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYNN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
01286 673535
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ECO'r Wyddfa

Cyfarfod 20fed o Dachwedd 2018
Adroddiad gan y Parchedig Robert Townsend am sefyllfa mynwent Eglwys Sant Mihangel Llanrug. Diolchodd y Parchedig Robert Townsend am y cyfle i ddod i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned ac fe eglurodd fod y broses wedi cychwyn i gau'r Eglwys. Adroddodd fod hyn am nad yw'r adeilad yn saff ac y buasai angen gwario o leiaf £100k i'w ddiogelu ac nad yw'r arian yma gan yr Eglwys. Adroddodd y bydd y gwasanaeth olaf yn cael ei gynnal ar 30ain o Ragfyr 2018. Cafodd yr aelodau gyfle i holi'r Parchedig Townsend am y broses a'r dyfodol ynghyd a chynnal a chadw'r fynwent. Cytunwyd y buasai'r Cyngor Cymuned yn cadw mewn cysylltiad a'r Eglwys a byddai cyfarfod arall yn fanteisiol i gael diweddariad ar y sefyllfa mewn 2 i 3 mis. Y Clwb Ieuencid. Adroddwyd fod oediad wedi bod yn apwyntio staff a bod angen trefnu cyfarfod gyda'r staff a'i rheolwr llinell i drafod materion gweinyddol ac iddynt fod yn ym wybyddus o gyfleusterau'r Sefydliad Coffa. Y Fynwent. Adroddwyd fod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:- Fod y gwaith ar y llwybrau wedi ei

O'r Cyngorhau

Cyngor Cymuned Llanrug

gwblhau. Trafodwyd yr angen i symud ymlaen i baratoi tir er mwyn ehangu'r fynwent fydd yn golygu symud y ffensys ynghyd a gwaith tacluso cyffredinol. Cytunwyd fod angen cario allan asesiadau risg ar y fynwent a trefnwyd i aelodau Pwyllgor y Fynwent gyfarfod yn y fynwent i asesu beth sydd angen ei wneud. Nodwyd fod y biniau ailgylchu yn cael eu gwagio yn reolaidd gan Gyngor Gwynedd. Pwyllgor Hamdden Yn dilyn cytundeb gyda Mrs Meinir Griffith, Cwmni'r Cofebion Llanrug ynglyn a gosod Coeden Nadolig ar y safle, penderfynwyd cael coeden 15 troedfedd eleni a fydd yn cael ei gosod ar ol y 25ain o Dachwedd. Prynwyd y Cennin Pedr ar gyfer Pwll Moelyn/ Nant y Glyn a thorch Sul y Cofio ar ran y Cyngor. Penderfynwyd cael diwrnod casglu sbwriel ar ddydd Sadwrn, y 12ed o Ionawr 2019. Bydd adroddiad ac asesiad am stad y coed ar barc Pwll Moelyn yn cael ei wneud gan gwmni syrfeyr penodol. Bydd angen penderfynu unai tocio neu gadael nhw fod yn sgil y stormydd Hydrefol gynt. Pwrcasu grit a'i ddosbarthu i drigolion lleol. Adroddwyd gan y Clerc fod trefn llynedd wedi bod yn gostus ac nad

oedd rheolaeth llawn o'r drefn gan y Cyngor gan fod y cyhoedd yn cysylltu a'r Clerc i ofyn am lenwi bin halen ond na fyddai'n cael gwybod pryd fyddai'r bocs yn cael eilenwgan Cyngor Gwynedd na chwaith os yr oedd wedi ei lenwi. Yn sgil pryderon am y drefn yma eleni, argymhellir y dylai'r Cyngor brynu cyflenwad o grit mewn bagiau ar gyfer y ffyrdd, fyddai yn cadw'n hirach gan na fyddai'r glaw yn ei ddifetha. Ysgolion Cynradd Derbyniwyd adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ar gyrff Llywodraethol Ysgolion Cynradd Llanrug a Chwmyglo. Cyngor Gwynedd Adroddiad gan y Cyngorhorydd Berwyn Parry Jones Roedd y Cyngor heb dderbyn y gyllideb derfynol gan Llywodraeth Cymru ond yn dal i gynllunio am doriad o £11miliwn ar hyn o bryd. Mae swyddogion wedi darparu nifer o gynlluniau arbedion yn barod i gael eu trafod. Hefyd bydd canlyniad yr ymgynghoriad "Pa wasanaethau Cyngor Gwynedd sydd yn bwysig i chi" ar gael i helpu gwneud y dewisiadau. Mae un canllaw cynllunio atodol allan i ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd ac fe fydd dau arall yn dod allan yn fuan, sef:- Cyfleusterau a Llety i dwristiaid - allan yn barod Cynnal a chreu Cymunedau nodedig a chynaliadwy - allan 13eg Rhagfyr Tai Fforddiadwy - allan 13eg Rhagfyr Bydd yr ymgynghoriad yn cau diwedd mis Ionawr

Fe gytunodd y 6 cyngorsiry Gogledd i symud ymlaen hefo Cynllun Twf Gogledd Cymru Roedd y Canghellor wedi adrodd fod swm o £120miliwn ar gael i'r cynllun twf yn ei gyllideb. Bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru gytuno i gyfrannu swm tebyg. Mae oedi ar gynllun Dol Afon, oherwydd fod peilonau angen eu symud ar gost uchel iawn. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cynnal trafodaeth gan obeithio am ddatrysiad buan. Adroddiad gan y Cyngorhorydd Charles Jones Cais Cynllunio ar gyfer Cae'r Eglwys - Derbyniwyd cais cynllunio newydd ar gyfer Cae'r Eglwys wedi i'r cais blaenorol cael ei dynnu'n ôl. Y bwriad newydd yw codi 9 byngalo ar y safle, gydag un ohonynt yn uned fforddiadwy. Apely Diffibriliwr Penderfynwyd symud ymlaen ac i archebu diffibrilwyr ar gyfer Llanrug. Adroddwyd fod Tafarn Glyntwrog wedi cytuno i leoli un yno a fod Siop y Premier wedi cytuno i'r llall. Cais am gymorth ariannol. Penderfynwyd cyfrannu £350 tuag at gostau Eisteddfod Llanrug a'r Cylch Ceisiadau Cynllunio 'Doedd dim gwrthwynebiad i gais am estyniad a newidiadau yn Crigyll, Llanrug Cyfrifiadur y Cyngor. Cytunwyd i brynu offer i storio gwybodaeth wrth gefn i'r cyfrifiadur.

ECO'r Wyddfa

Crynodeb o Gyfarfod 6ed Tachwedd 2018 Cofnodion Cyfarfod 4ydd Hydref Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir Allt Ddu - Dywedodd y clerch ei bod wedi cysylltu a Gareth Roberts ynglyn a creu arwydd a hanes yr ardal, a gobeithio bydd Gareth yn ymuno gyda ni yn nghyfarfod mis Rhagfyr. Dywedodd y Cadeirydd fod yna hysbyseb teithiau cerdded gan Menter Fachwen yn Eco'r Wyddfa mis Hydref, a hynny yn nodi man cychwyn fel "turnaround Bysiau, Dinorwig". Y clerch i yrru llythyr yn egluro yr hyn sydd dan sylw ac mai Allt Ddu yw'r enw cywir, ac efallai awgrymu defnyddio man cychwyn fel "Allt DDU, ger Cofeb y Chwarelwyr, Dinorwig" yn hytrach. Hefyd, awgrymwyd i gysylltu gyda Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, gan ddatgan ein bod yn ceisio gwneud cymaint i gadw enw hynafol pwysig yr ardal yma a'i hanes. Mainc Brynrefail - Ar ôl ymgynghori a sawl preswlydd

O'r Cyngorhau

Cyngor Llanddeiniolen

yn yr ardal, a siarad ymhellach a CCG, mae CCG wedi cytuno i symyd 1 bolder carreg a gadael y Fainc lle mae hi yn bresennol, gan mai fan honno ydi'r lle gorau iddi fod. Llythrau Diolch - Derbyniwyd a darllenwyd sawl llythyr gan fudiadau lleol yn datgan eu gwerthfawrogiad am nawdd ariannol. Gwaith Ail Wynebu'r Ffordd, Stryd Uchaf Rhiwlas - Ar ôl sawl blwyddyn a cais ar ôl cais i'r cyngor Sir, maent bellach am ail wynebu'r ffordd yma. Bydd y gwaith yn cychwyn ar Tachwedd 19 ac yn cymeryd wythnos i'w gwblhau. Banciau Ailgylchu - Ar ôl nifer o flynyddoedd, mae gwasanaeth banciau ailgylchu yn Bethel a Rhiwlas wedi dod i ben. Rheswm pennaf am hyn yn ôl Cyngor Gwynedd yw cost y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae darpariaeth gyfatebol ar gael i ailgylchu drwy'r gwasanaeth wythnosol bob eiddo, neu ymweld a un o'r Canolfannau Ailgylchu.

Cynllunio Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis: 1 Dinorwig Cottage - Estyniad deulawr i ochor y tŷ. Dim Gwrthwynebiad 8 Blencathra, Bethel - Adeiladu Estyniad Cefn a Modurdy Dim Gwrthwynebiad Cae OS 5781, Seion - Gwaith trin dwr aflon, rhodfa a gwellianau i'r mynedfa ffensys a thirlunio Dim Gwrthwynebiad

Nodwyd fod 2 safle yn Bethel wedi ei ganiatau, Mae Bron Gwynedd, y tai wedi eu adeiladu, ac wedi eu gwerthu i Grwp Cymnefin, fydd o bosib yn rhentu i rhywyn sydd ar eu rhestr yn aros am dŷ. Roedd y tir yma wedi ei wrthod 3 gwaith gan y llywodraeth, ac yn y diwedd yn groes i'r llywodraeth a barn lleol, yn cael ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd. Cae Sam - Y cais cynllunio bellach wedi ei basio a'i werthu yn dilyn derbyn cynllunio i 7 tŷ a 2 o'r heini yn dai Fforddiadwy. Tybed a ydi Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn craffu digon ar y ceisiadau yma, a pam mae pethau yn newid ar ôl caniatad cynllunio. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir, a Grwp Cynefin am y mater Nodwyd fod llechi o Sbaen yn cael eu defnyddio pan yn ail

doi eu tai. Pam na ellir defnyddio llechi lleol i sicrhau gwaith. Hefyd, pam nad oes gan CCG contractwyr a gweithwyr lleol yn gweithio ar y tai sydd yn cael gwelliannau. O gwmpas y Bwrdd Biniau Halen - Caead i Bin Halen yn Ty'n Fawnog/Bro Elidir, Allt Pen Dinas ac angen o'r Newydd yn Lon Garnedd ger y fferm a ger y cae chwarae yn Peniasarwaun. Brynrefail - Gofyn faint ac oes posib symyd y golau ar y prif ffordd o lle mae tua 20 metr fel ei fod yn goleuo y groesfan yno. Diffriblydd - Bydd noson yn cael ei chynnal ym Mheniasarwaun i drafod cronfa diffriblydd i'r pentref, bydd fwy o fanylion i ddilyn. Llwybr i'r Cysgodfan Bws , Peniasarwaun - Gofyn am bris i wneud llwybr caled i'r cysgodfan Bws yn Peniasarwaun. Rhiwlas - Cais eto i llau gwliau cyn y gaeaf. Bethel - Mae yna arwydd 20mya wrth ymyl yr Ysgol. Mae goleuadau i fod i fflachio, ond ddim yn gweithio ers dipyn Cysylltu a Cyngor Gwynedd. Llwybr nesafi fyny o Capel Bethel yn lon gwaelod i Glan Gors - Coeden Eiddew angen ei thocio. Llwybr yn cydreddeg a hen rheilffordd is lawr na Cysegr angen cael gwared a tyfiant drain.

O'R CYNGOR CYMUNED

Ar wahoddiad y cyngor daeth dau o swyddogion Cwmni Cynefin – Nowela Jones a Gwynndaf Williams - draw i drafod dull o weithio ac amcanion Grŵp Cynefin. Yn amlwg, roedd hwn yn gyfle i gyfeirio yn benodol at ddyfodol y tai fforddiadwy sydd wedi eu hadeiladu tu cefn i Bron Gwynedd. Mae Grŵp Cynefin wedi pwrcau y tai gan y datblygwr . Fel un o gynghorwyr Bethel cefais ryddid gan y Cadeirydd i holi a thrafod gyda'r ddau swyddog a gallaf rannu y wybodaeth ganlynol gyda chwi.

Y bwriad yw gorffen y gwaith ar y tai, sydd yn dai tair llofft, erbyn mis Chwefror. Tai ar rent yn unig fydd y rhain. Amcangyfrif y swyddogion oedd y buasai'r rent o gwmpas y £100 yr wythnos. Bydd y ffigwr terfynol yn seiliedig ar asesiad prisiwr y Cynulliad. Ar gyfer y datblygiad yma mae Cynefin wedi argymhell polisi arbennig. Bydd y tai yn gyfyngedig i ymgeiswyr sydd wedi byw/gweithio tu fewn i ffiniau Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am o leiaf y pum mlynedd diwethaf. Bydd dilysrwydd hyn yn cael ei archwilio yn fanwl. Roedd y swyddogion yn hyderus y bydd Cyngor Sir Gwynedd yn cefnogi y polisi yma. Bydd gofyn i rai sy'n gwneud cais am y tai gofrestru gyda Cynllun Opsiynau Tai. Wedi i'r rhestr fer o ymgeiswyr gael eu dewis, yna bydd blaenoriaethu ar sail y dull 'pwyntiau' yn cael ei ystyried.

Gobeithio bod hyn yn goleuo tipyn ar y sefyllfa i chwi. Cafwyd cyfraniadau gan gynghorwyr o wardiau eraill. Roedd nifer yn unfarn nad oedd gwrthwynebiad i gynnig tai i'n pentrefi ond roedd cryn anghytuno ar y math o dai oedd yn cael eu cynnig. Soniodd rhai am y gofyn am 'dai hen bobol' yn y pentrefi fuasai efallai yn rhyddhau rhai tai ar y farchnad agored. Awgrymodd eraill fod y gwahanol agweddau ym mhollisiau Cynefin a Chartrefi Cymunedol Gwynedd hefyd yn creu amwysedd.

Daeth un llygedyn o newyddion da gan y swyddogion. Mae'n ymddangos y bydd swm o arian yn cael ei ddynodi ar gyfer cymuned Bethel o'r fenter hon. Fe drosglwyddir yr arian yma i'r Cyngor Cymuned, ac yna i fod yn hollol ddemocrataidd ac agored, bydd gofyn i gynghorwyr ward Bethel ymgynghori â'r pentrefwyr iddynt hwy restru eu blaenoriaeth.

CYFARCHION YR WYL

Dymuna Elizabeth Evans, Pen-Parc Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu, ffrindiau a chymdogion. Yn lle'r cardiau, bydd Elizabeth yn gwneud cyfraniad arianol at Ysgol Pen Dalar. Fel nifer yn y pentref mae Elizabeth yn gwerthfawrogi bob caredigrwydd a chymwynas a rennir yn dawel drwy'r flwyddyn.

CAPEL Y CYSEGR

Ers sawl blwyddyn bellach mae Gwasanaeth Unedig Bore'r Nadolig wedi ei gefnogi yn niferog a theimla llawer ei fod yn rhoi cychwyn arbennig i agwedd deuluol Dydd Nadolig. Cynhelir Gwasanaeth y Cymun dan arweiniad y Parch. Marcus Wyn Robinson am 10a.m. Fel arfer, bydd casgliad rhydd gyda'r cyfraniad yn mynd at elusen benodol. Croeso i bawb ymuno.

MERCHED Y WAWR

Daeth nifer dda o aelodau ynghyd ar gyfer cyfarfod Mis Tachwedd. Y wraig wadd oedd Angharad Gwyn yn sôn am sefydlu a rhedeg ei busnes 'Adre'. Wrth ei chyflwyno cyfeiriodd Gwenan ein llywydd fod Angharad wedi hen ennill ei lle fel gwraig fusnes lwyddianus, ac wedi derbyn sawl gwobr genedlaethol yn cydnabod ei llwyddiant a'i mentergarwch. Ar ddechrau'r fenter, gwella'r dull o werthu ar lein dros nifer o gwmnïau wnaeth Angharad. Bellach, mae'n rhoi gofod gwerthiant i nifer fawr o gwmnïau ac yn ymfalchio mai cwmnïau a gwneuthyrwyr o Gymru ydynt i gyd. Erbyn hyn, mae hi yn rhedeg siop ym Mharc Glynllifon. Yn ffodus iawn, o flaen y Nadolig fel hyn, daeth â nifer fawr o'i chynnyrch hefo hi i arddangos a gwerthu. Cyfle braf oedd hyn i ddilyn datblygiad busnes cynhenid ac ymfalchio yn menter Cymraes hyderus. Diolchwyd i Angharad am noson ddifyr iawn gan Rhian.

Cydymdeimlwyd â Mair Read yn dilyn colled o fam annwyl yn ddiweddar, i Gwenan merch Mabel ac Alun ar ei phriodas â Rob, ac i Delyth a Morlais ar ddathlu eu priodas ruddem.

Byddwn wedi dathlu ein cinio Nadolig ar Ragfyr 12ed ac yna edrych ymlaen at gyfarfod cyntaf 2019. Y siaradwraig wadd bydd Gwen Davies i drafod ei maes arbennigol sef iechyd y llygaid, a'r gwaith wneir yn y trydydd byd gan yr elusen 'World Vision'.

GRŴP TRAFOD 'Y SIOP'

Mae'r grŵp wedi dechrau cael cyfarfodydd trafod i geisio ymateb i'r bwlch o Siop Cled yn cau ym mis Ebrill. Ar y cychwyn teimlai

aelodau'r grŵp mai annoeth fuasai cyfeirio atynt eu hunain fel pwyllgor. Yn wahanol i unrhyw 'bwyllgor' nid oes gan y grŵp yma dan gadaeryddiaeth Sion Jones unrhyw rym. Ei nod yw gwyntyllu bob adwy ellir hyrwyddo camau i greu grŵp cymdeithasol, efallai, fydd yn cynnal dymuniad y pentrefwyr. Yr elfen bwysig yw fod y grŵp yn cyfarfod â'r pentrefwyr yn rheolaidd i adrodd yn ôl. Gan y pentrefwyr, a nerth cefnogaeth y pentrefwyr, bydd y 'gair olaf' ac felly'r grym i wthio ymlaen.

I'r perwyl hwn camau cyntaf y grŵp fydd cysylltu ag asiantaethau tu fewn i'r Cyngor Sir a chyda Chymdeithasau Cymunedol sy'n bodoli eisioes e.e. criw Llithfaen, i geisio rhoi ryw fath o lwybr ymlaen. Gyda'r cymorth yma fe gyflwynir holiadur i bentrefwyr Bethel/Seion yn gofyn am eu blaenoriaethau hwy, lleoliad, amserlen a.y.y.b. Fe ddaw yr holiaduron draw i'ch drws a thaer erfynir ar bob un ohonnoch i ymateb i'r holiadur. O'r ymateb y tanir brwdfrydedd neu ddigalondid y grŵp I gario ymlaen. Fel y dywedwyd droeon yn y cyfarfod cyhoeddus mater i Fethel/ Seion yw hyn yn y bôn a'n gweledigaeth ni at ddatblygiad yfory ein bro sydd yn y fantol. Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad – a chefnogaeth gobeithio.

Aelodau'r grŵp yw Sion Jones(Cynghorydd Sir), Gareth Griffiths, Jane Pierce, Richard Llwyd Jones(Cynghorwyr Cymuned), Gwyneth Davies, Sian Elen, Richard Owen, Sarah Trotman, Gareth Hughes a Nia Price.

CROESO'N ÔL

Rydym yn croesawu Vera Davies yn ôl i 9, Y Ddôl. Bydd cryn edrych ymlaen at fore Nadolig a nain Vera yno ymysg ei 'pharabllus blant'. Pob dymuniad da Vera.

TALWRN Y BEIRDD

Bydd y gyfres newydd yn dechrau ym mis Ionawr gyda gornest rhwng timau Llanrug a'r Tlir Mawr, pencampwyr y gyfres mwy nag unwaith. Yng ngheiriau y Meuryn, Ceri Wyn Jones, cafwyd gornest safonol iawn i ddechrau'r gyfres. Cewch wybod y canlyniad ym mis Ionawr. Aelodau tim Llanrug oedd Dafydd Whiteside Thomas a John Roberts o Lanrug a Dafydd Williams a Richard Llwyd o Fethel. Recordiwyd y rhaglen yn festri Capel Dinas, Pen Llŷn.

Yn anorffod fe wnaeth Brexit ac agweddau ohonno weithio ei ffordd i'r cerddi. Fel tamaid i aros pryd dyma englyn 9 marc Dafydd Williams ar y testun 'Mainc'. Rwyn siwr y gallwch ddyfalu pa fainc sydd dan sylw.

MAINC

Hon yw nyth yr Anoethion – hi yw gwâl
y gwag addewidion;
a chaer ydyw clydwch hon
i wagedd Gweinidogion.

HER 2019

Bu'n flwyddyn o golledion rhyfeddol yn y fro yma yn 2018. Collwyd sawl un a gyfranodd mewn sawl ffordd i fywyd cymunedol yr ardal. Byddwn yn meddwl am rai ohonnoch yn eich 'hiraeth' y Nadolig hwn. Ond rwyf wedi bod yn dyst hefyd i nifer o unigolion yn dymuno cydnabod sawl cymwynas dawel dros oriau dwys.

Mae o hyd yn y pentref wirfoddolwyr parod i gynnal agweddau o fywyd cymdeithasol y pentref. Criw casglu'n sbwriel ni ar ddydd Mercher. Criw elusenol y Neuadd. Meddyliwch amdanynt pan welwch rhywun yn taflu sbwriel, neu anwybyddu codi baw eu cwn, a ninnau'n cerdded ymlaen heb ddweud dim. Y parcwyr blêr.

Diolchwch am y rhai'n gofalu am ein plant yn yr Urdd neu grwpiau chwaraeon fore Sadwrn. Yr athrawon Ysgol Sul yno'n blygeiniol ar y Sul ac yn dymuno i fwy o blant ymuno a hwy. Trefnwyr Steddfod a Chymdeithasau sy'n prysur prinhaus. Beth allwch chi fel unigolion gyfrannu i fywyd y pentref freintiedig yma. Yntau ydym ni yn fodlon gadael y gwaith i griw bach a bod yn 'feirniad' o bell. Apeliad arnoch i rannu eich gallu/dawn/gweledigaeth fel na fydd y pentref yma yn troi yn bentref 'mawr' yn ddim ond tai. Awn ymlaen i herio 2019.

DIOLCH PERSONOL

Diolch yn fawr i chwi drigolion Bethel/Seion am eich cefnogaeth i lenwi colofnau newyddion pentref ac ambell erthygl dros 2018. Rwyf yn ceisio nid yn unig gofnodi digwyddiadau ond hefyd ennyn diddordeb. Cofiwch nad wyf i hyd yn oed yn gweld/clywed pob dim. Gadewch i mi wybod ac fe roddir sylw iddo yn eich papur chwi – Eco'r Wyddfa. Nid fy mwriad yw cynnwys yr un enwau bob mis. Yr un modd rwyn gobeithio fy mod yn agored fy marn ac yn trosglwyddo gwybodaeth yn agored heb fod yn faleisus.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.



EDRYCH MLAEN

Bydd cryn edrych mlaen i'r Wyl ar aelwyd Dyfed a Carys (Bro Rhos gynt) draw ym Mhontrug. Dyma fydd y Nadolig cyntaf ers eu priodas ym mis Medi. Fe ffilmydd y briodas ar gyfer y gyfres Priodas Pum Mil. Fe ddarlledir y rhaglen rhywbryd yn ystod mis Ionawr. Bydd Eirlys wedi llwyr wirioni unwaith eto yn ail – fyw y diwrnod mae'n siwr. Hoffai Dyfed a Carys ddiolch o galon i'r criw a'r cyflwynwyr am eu help, heb amharu ar y 'diwrnod mawr' wrth groniclo'r digwyddiad.



CLWB BRO BETHEL

Mentrodd 32 ym mws Derfel draw i dafarn Glandwyfach i gyd-ddathlu gyda Chinio Nadolig blasus iawn. Roedd y platiau gweigion yn dyst i'r bwyd blasus. Fel arfer, tynnwyd raffl ac yn rhyfeddol yr oedd digon o wobrau wedi eu cyfrannu gan yr aelodau fel bod neb yn mynd adre'n waglaw. Diolch hefyd i Cled a Susan, Post am eu haelioni arferol ac i Barbara Winrow, Crochendy Piggery Pottery am wobwr hael iawn. Diolch hefyd i Anne Elis a Mary Wyn am eu trefniadau trylwyr ar gyfer y diwrnod.

Fe ddaeth cais hefyd i ystyried fod y clwb Bro yn cymeryd drosodd trefnu y 'Dathliad Nadoligaidd' a gynhelir bob blwyddyn. Roedd yr ymateb gyntaf i weld yn gadarnhaol ac rwyn siwr erbyn y Nadolig nesaf bydd trefniadau yn eu lle.

Ni fydd cyfarfod ym mis Ionawr ond byddwn yn ail ymgynull yn Festri'r Cysegr ar Chwfror Sed pryd byddwn yn sicr o gael ein diddanu gan yr hanesydd amryddawn Bob Morris o Benygroes. Gwledd yn wir, a chofiwch fod croeso i chwi alw draw i ymuno a ni a rhannu panad a chlonc.



MWY O HAELIONI

Dymuna pwyllgor Clwb Pel-droed Bethel ddiolch i Robin, Coed Belyn ar ran cwmni R.L.Davies, Planthire am ei nawdd hael. Yma gwelir Max, un o'r garfan gyda Robin yn y lifrau newydd.



Y FFAIR AEAF

Bu Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon sy'n cyfarfod yn Neuadd Goffa Bethel, yn falch o gyfraniad ei haelodau at dim Rhanbarth Eryri yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn ddiweddar. Bu Bedwyr Jones, Y Fachell yn llwyddianus drwy gipio'r tlws dan 18 am farnu carcass oen drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y rhestr olaf ddwy-ieithog roedd yn y chweched safle. Clod hefyd i Elis ei frawd ar orffen yn y chwech ychaf yn yr un gystadleuaeth. Diolch iddynt, gorffenodd Rhanbarth Eryri yn Sed trwy Gymru ar y Barnu Carcas Oen. Llongyfarchiadau hefyd i Robart Griffith ac Non Griffith hefyd am fod yn rhan o dim Eryri.

WYTHNOS RYFEDDOL

Mae'n debyg na fu wythnos gyffelyb yn hanes clwb pêl-droed Llanrug nag wythnos olaf Tachwedd eleni. O fewn saith diwrnod cafwyd canlyniadau arbennig mewn tair cystadleuaeth wahanol. Ar y Sadwrn roedd pedwaredd rownd Tlws C.P. Cymru. Y gwrthwynebwyr oedd Llanfair Unedig o ardal Llanfair Caereinion. Dyma glwb â thipyn o hanes o guro clybiau o lefelau uwch mewn cwpanau yn y ddau dymor diwethaf. Tîm a thipyn o allu yn gymysgedd o ieuenctid ac ambell i hen ben. Cafwyd chwip o gêm ar Eithin Duon. 1-0, 1-1, 3-1, 3-2 cyn i Dafydd Noel Williams y chwaraewr/reolwr gipio'r fuddugoliaeth gyda phedwaredd gôl i Lanrug. Ac am gôl. Cic rydd, 25 llath o'r gôl. Y mur amddiffynol yn ei le, ond Charlie yn crymanu y bêl o gwmpas y mur ar hyd y llawr i gornel y rhwyd. Gôl i'w thrysori. Yn gynharach roedd Jason Sadler wedi rhwydo ddwywaith i Lanrug – un o'r smotyn. Un siom , nad oedd llumanwyr di-duedd wedi eu apwyntio am gêm mor bwysig. Serch hynny gwnaeth y ddau lumanwr 'clwb' eu gwaith yn dda. Yn anffodus, ffyslud a thynnu sylw at ei hyn, ei lais a'i bib wnaeth y dyfarnwr. Diolch fod y chwaraewyr wedi dangos disgyblaeth, i gael y dyfarnwr allan o dwll yn aml.

Dim amser ymarfer. Yn ystod yr wythnos taith i Langefni am gêm gynghrair. Llangefni, yn ddiguro hyd hynny mewn 17 gêm yn olynol. Chwip o gêm eto, dau gerdyn coch, ond gôl yr eilydd Gavin Jones yn diweddu rhediad y Monwysion. Hyn yn sicr yn rhoi hyder i Lanrug fod yn un o geffylau blaen y gynghrair eleni. Yn sicr, maent yn sgorio digon o goliau, ond teimlaf weithiau eu bod yn chwarae'n rhy ddyfn yn amddiffynol ac felly yn tynnu cryn bwysedd ar eu hunain. Ond , fel dywedodd rhywun rhyw dro ennill gêm yw sgorio un yn fwy na'r gwrthwynebwyr. Gyda llaw, fe ail-gyfododd Llangefni wedi'r golled drwy guro Llanelli o Uwch Gynghrair Cymru 1-0 yng Nghwpan Cymru. A'r sgoriwr, cyn ddewin Llanrug, Alan Mark Owen.

Edrychwn ymlaen i'r ddau dîm gyfarfod nesaf, a hynny yn rownd go-gyn derfynol y Tlws C.P. Cymru. Reff go lew gobeithio!

Ymlaen â'r wythnos. Ar y Sadwrn i ffwrdd i Bodedern, un arall o brif dimau'r gynghrair yng Nghwpan Cookson. Gêm ping-pong arall. Sgoriwch chi, sgoriwn ni. 4-4 wedi'r 90 munud, ond Llanrug yn ennill ar giciau o'r smotyn.

Tair gêm galed, tair buddigoliaeth. Dim rhyfedd i Dafydd Noel gael ei enwi fel rheolwr y mis am fis Tachwedd. Rwyn siwr y buasai Charlie yn cydnabod cyfraniad Eifion Jones yr is-reolwr, ac i'r chwaraewyr am wir ymroddiad. Tymor y tlysau yn Eithin Duon, tybed. Cawn weld. Rhyfeddol cofnodi fod Charlie bellach wedi chwarae dros 400 gêm i Lanrug a sgorio bron iawn i 200 gôl. Rhyfeddol am chwaraewr ganol cae.

Ac fel bod y patrwm yn amlgu ei hun, yn gêm gartref gyntaf mis Rhagfyr y sgôr oedd Llanrug 4 Maesglas 4, ar ôl i Lanrug fynd 3 gôl ar y blaen. Grêt i'r cefnogwr di-duedd, ond cefnogwyr Llanrug yn ddi-duedd Sgersli bilif!

grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

CWIS CHWARAEON ECO'R WYDDFA

1. Pa wobr ennillodd Hal Robson-Kanu ym mis Awst 2018?
 2. Pa un o gyn brif glybiau rygbi Cymru sy'n symud o'u cartref traddodiadol ar ddiwedd y tymor yma oherwydd problemau gwrth-gymdeithasol?
 3. Pwy yw'r tri gôl-geidwaid olaf i chwarae yn y gôl I dîm hŷn pêl-droed Cymru?
 4. O pa weithfeydd lleol y tarddodd y ddau dîm pêl-droed, Brake Liners a Mcbee United?
 5. Ym mha ddinas yn Lloegr y digwyddodd y ffrwgwd yn ymwneud â Ben Stokes ac Alex Hales?
 6. Pa glwb rygbi Uwch Gynghrair Lloegr sy'n chwarae gartref ar Sandy Park?
 7. Pa gwmni fydd yn olynu RBS fel noddwr Cystadleuaeth y Chwe Gwlad am y chwe mlynedd nesaf?
 8. Pwy ennillodd Pencampwriaeth Golff Agored Prydain i Ferched eleni?
 9. Ar faes pa glwb pêl-droed y chwaraewyd rownd derfynol Cwpan Clybiau De Amerig eleni?
 10. Sgôr fuddugol uchaf Cymru mewn gêm ryngwladol yw 11-0 ar y Cae Râs. Yn erbyn pa wlad?
 11. Pwy sy'n cystadlu am Gwpan Wightman?
 12. Pwy ennillodd Tlws Cyfraniad Oes i Chwaraeon yn noson wobrwyo Personaliaeth Chwaraeon Cymru eleni?
 13. Pwy oedd y sir olaf dosbarth cyntaf i ymuno a Chystadleuaeth Criced y Siroedd?
 14. Pwy yw'r unig Gymro i ennill un o brif gystadlaethau dartiau Prydain eleni?
 15. Fe gyfeirir at rowndiau rhagbrofol y gystadleuaeth golf i'r prif ennillwyr arian mewn tymor fel 'The Race to'.
 16. Yn ystod misoedd Tachwedd/Rhagfyr pa dîm criced cenedlaethol Cymru sydd wedi cystadlu mewn Cwpan Criced Byd oedranol?
 17. Ym mha ddinas yn yr Eidal mae'r 'Hen Wreigan' Serie A yn chwarae eu gemau cartref?
 18. Pa dîm o du allan i Uwch Gynghrair Pêl-droed Cymru sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Gynghrair?
 19. Pwy gyflawnodd yr un gamp y tymor diwethaf?
 20. Mae Iwerddon wedi curo y Crysau Duon ddwy waith yn ddiweddar. Beth oedd enwau'r meysydd a'r dinasoedd ble cyflawnwyd y gamp?
- MAE'R ATEBION I'W GWELD AR DUDALEN21.

CYFARCHION YR ŴYL

O swyddfa y Golygydd Chwaraeon Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll fy narllennwyr ffyddlon. Diolch am sawl sgwrs, awgrym a dadl yn ystod y flwyddyn. Beth am fy ngwneud yn hapus yn 2019 drwy ymateb i rai o'r erthyglau, rhai rwy'n fwriadol lunio â'm 'tafod yn fy moch'. Cadwch fy mrwdfrydedd yn uchel gan ymateb gyda'ch syniadau a'ch barn. Ac yn olaf, mae y Golygydd a minnau yn ymfalchio ein bod yn trafod ystod helaethach o gampau na'r mwyafrif o bapurau bro. Pam nid sicrhau fod eich clwb, mudiad neu gamp chwi yn cael sylw. Ble mae stori, mae na le.

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**BRYN AFON
ENGINEERING LTD**
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

Clwb Rygbi Caernarfon



Cafodd Llysgenhadon Ifanc y cyfle i fynychu cwrs arweinydd Tag Rygbi yn Clwb Rygbi Caernarfon. Edrychwn ymlaen i weld y gwirfoddolwyr yn hyfforddi yn ysgolion Cynradd y dalgylch

Clwb Segontiw Jiwdo yn Serenu



Bu i aelodau clwb jiwdo Segontiw basio graddio yn ddiweddar gan ddangos eu sgiliau a'u gallu mewn gwers arbennig. Edrychwn ymlaen i groesawu yr aelodau yn eu beltiau newydd wedi'r Nadolig. Bydd y sesiynau yn ailgychwyn Ionawr 14, 2019. Hoffai pwyllgor y clwb ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Grêt gweld nifer o aelodau lleol yn mwynhau sesiynau jiwdo yn wythnosol.

BETH DDAW SION CORN YN EI SACH?

Er lles y golofn hon gobeithio y bydd Cymru yn cael ei chydabod fel gwlad sy'n gallu bod yn gystadleuol ar y lefel ryngwladol. Ar ddechrau 2019 Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan fydd yn denu'r sylw. A Chymru yn rhif tri yn rhestr detholion y byd yn bresennol ac ymgyrch yr Hydref yn llwyddianus, bydd cryn edrych ymlaen. Bydd rhaid curo Awstralia ar y llwyfan mawr. Y lleiaf i'w ddisgwyl fydd yr wyth olaf ond gobeithio ymestyn ymhellach. Sion Corn, digon o olew Morris Ifans i Gatland, neu'r Pair Dadenni o'r Mabinogi fel bod y tim cryfaf, ddianaf ar gael gan Gymru ymhob gêm.

Sion Corn, gawn ni sbectol newydd i rai o gefnogwyr tîm pêl-droed Cymru. Sbectol sy'n eu galluogi i weld Ryan Giggs fel rheolwr Cymru nid cyn-chwaraewr Man U. Cymysglyd yw'r canlyniadau cyntaf dan oruchwyliaeth Giggs, ond yn amlwg mae Giggs yn barod i roddi cyfle i'r 'garfan iau' sy'n araf dorri trwodd ar y lefel uchaf. Mae'r sylfaen yn ei le. Cytgord rhwng rheolwr, hyfforddwyr a chefnogwyr fydd y gefnogaeth orau. Onid yw Harry Wilson yn ein gwerfeiddio.

Sion Corn, wnei di glirio'r problemau yn Bangor City. Gad i bobol sylweddoli nad y 'rhaid o ffwrdd' sy'n gymwys i redeg ein clybiau, ac yn sicr bod chwaraewyr lleol a'i hymroddiad yn haeddu cyfle dros y 'tramorwyr' sy'n llenwi pocedi o hyd.

Sion Corn, oes gen ti anrheg o gynllun i roddi trefn ar bêl-droed

RHEDEG MYNYDD

Ar ddydd Sul, 13eg o Ionawr bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal 'Rhediad Rory' er cof am aelod poblogaidd a gollwyd yn ystod y flwyddyn. Dyma gyfle i redwyr ddod ynghyd i hel atgofion a mwynhau rhai o hoff lwybrau rhedeg Rory. Bydd pawb yn cyfarfod ym maes parcio Mynydd Gwefru, Llanberis am 9.30 y bore, gyda'r rhediad yn cychwyn am 10.00. Does dim rhaid bod yn aelod o'r clwb. Mae croeso i bawb. Bydd dewis o lwybrau i'w dilyn.

Edrych ymlaen i ddwy ras leol boblogaidd:

Er mai ras ffordd yw Ras 10 cilomedr Deiniolen, mae rhai o'r gelltydd arni yn ddigon serth iddi gael ei galw'n answyddogol yn ras fynydd! Yn 2019 bydd yn cael ei chynnal ar nos Fercher, 12fed o Fehefin.

Ar ddydd Sadwrn, 14eg o Fedi cynhelir Ras Elidir o bentref Nantperis, ac eleni bydd yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru, felly disgwylir nifer go dda o redwyr a chystadlu chwyrn.

Cofiwch eu rhoi yn eich dyddiadur!

Cydweithio Cymunedol



Trefnwyd gweithgareddau yn ystod hanner tymor Hydref eleni ar gyfer plant a phobl ifanc Llanberis i fwynhau yng Nghanolfan y Gymuned. Daeth sawl mudiad ynghyd - Chwaraeon am Oes, Heddlu Gogledd Cymru, CCG, Tim Ieuenctid Gwynedd a llwyddodd y sesiwn Zorbs Calan Gaeaf i fod yn hynod lwyddiannus. Mae'r bartneriaeth yn gobeithio cynnal a chynnig mwy o weithgareddau eraill yn y dyfodol agos.

ieuenctid yng nghadarnle y bêl-gron yma yn y gogledd –orllewin. Trefn ble mae timau'r pentrefi yn or-lawn o chwaraewyr o du allan i'r pentrefi, yn wir allan o'r fro yn aml. Nid oes poblogaeth ifanc i lenwi timau ym mhob oedran, yn y pentrefi. Oes modd cael timau llai na 11 pob ochr fel bod y timau yna yn gallu cynnal timau yn eu pentrefi. Yntau, ydy'r plant yn dilyn y tlysau. Mae'n hanfodol fod teyrngarwch plentyn i ardal yn cael ei gynnal er mwyn cynnal yr olyniaeth. Y clybiau mwyaf llwyddianus yw'r rhai ble mae'r Adran Ieuenctid yn rhan anatod o'r Clwb Pentref. Un pwyllgor, un nod. Ni ddymunwn weld y sefyllfa a ddigwyddodd ym Methel yn cael ei amlygu mewn clybiau eraill.

Sion Corn wnei di ein anrhegu a balchder yn ein hunigolion ac sy'n barod i aberthu cyn-gymaint i gyrraedd copa eu campau. Rho inni fwy o'r Titw Bach â'i grys melyn.

Sion Corn, oes gen ti anrhegion arbennig i'r rhai sy'n rhoi eu horiau'n ddi-dâl i hyfforddi a chynnal ein timau mewn sawl camp yn yr ardal yma.

Sion Corn, oes gen ti gap a mwffler a chôt gynnes ar gael fel bod mwy ohonnom yn troi yn gefnogwyr campau lleol yn hytrach nag aros yn y tŷ yn poeni dros dynged timau estron.

Sion Corn, oes gen ti fap i sylwebwyr rygbi y B.B.C. fel eu bod yn sylweddoli y pellter o'r Gogledd i'r De, ac mai nid y deheuwyd yn unig 'face the long journey north'.

Chwaraeon

Llysgenhadon Aur Gwynedd



Cafodd Anna Whiteside Thomas a Ffion Wyn Jones eu hetholi i gynrychioli Gwynedd mewn cynhadledd Cenedlaethol yn Gaerdydd. Mae cynllun Llysgenhadon Ifanc yw’r genhedaeth nesaf o hyrwyddwyr chwaraeon ac maent yn gwneud cyfraniad enfawr i weithgareddau corfforol yn eu cymuned drwy annog, darparu, ysgwyddo sawl rol gwirfoddol, hyfforddi ac arwain. Cafodd Ffion a Anna y cyfle i gydweithio gyda mentoriaid ac athletwyr fyd enwog er mwyn rhannu syniadau, datblygu cynlluniau a rhoi Gwynedd ar y map.



Gwnaeth Gwynedd yn sicr o hynny drwy i Hannah Hughes ennill Gwobr Swyddog Llysgenhadon Ifanc y Flwyddyn drwy Gymru!!

Genod Hoci’n Dal i Wenu



Roedd Clwb Merched Hoci Caernarfon yn dathlu dyrchafiad i adran 1, Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru ddiwedd tymor diwethaf. Ond ni wnaeth y dathlu bara’n hir iawn gyda’r tîm yn colli pob un o’u gemau hyd yma ac yn eistedd ar waelod y tabl. Ond wrth wynebu dwy gêm yn erbyn Llanfair Caereinion a Dysynni wrth i’r rhifyn yma fynd i brint, mae’r genod yn dal i wenu gan sicrhau eu bod yn mwynhau pob eiliad!



Cafodd Tim Merched Rygbi Mor Ladron (dan 18) gyfle i fod yn rhan o drefniadau Gem Ryngwladol Merched Cymru yn Stadiwm Principality yn ddiweddar gan arwain Tim y Merched ar y cae.

Rasus Ieuenctid Marathon Eryri



Bu i Tim Chwaraeon am Oes a Brownies Llanberis gydweithio i drefnu rasmus ieuenctid fel rhan i ddigwyddiad mwyaf yr ardal - Marathon Eryri fis Hydref. Cafodd dros 150 o ddisgyblion y cyfle i fwynhau ras hwyl a chroesi y llinell derfyn ar y diwrnod. Diolch i Lysgenhadon Ifanc Gwynedd am wirfoddoli i arwain a threfnu ar y bore.